Estyn

*Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion

Mawrth 2008

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **2** |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| **Argymhellion** | **6** |
| **Y bwlch cyrhaeddiad** | **8** |
| **Pam mae merched yn gwneud yn well na bechgyn yn yr ysgol?** | **16** |
| **Pam mae’r bwlch cyrhaeddiad yn cynyddu wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn?** | **21** |
| **Beth yw’r rhwystrau rhag codi cyrhaeddiad bechgyn?** | **22** |
| **Beth yw’r strategaethau mewn ysgolion sy’n effeithiol o ran codi cyrhaeddiad bechgyn?** | **23** |
| **Sut mae awdurdodau addysg lleol yn ceisio gwella cyrhaeddiad bechgyn?** | **27** |
| **Herio stereoteipiau a darparu patrymau ymddwyn cadarnhaol** | **28** |
| **Datblygiadau cyfredol a all gyfrannu at gau’r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched** | **29** |
| **Atodiad:** Astudiaethau achos o arfer lwyddiannus | |
| **Geirfa** | |
| **Llyfryddiaeth** | |

## Cyflwyniad

1 Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o gylch gwaith blynyddol Estyn ar gyfer 2006-2007 a 2007-2008. Mae’r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau mewn perthynas â chau’r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion. Mae’r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar:

- ddadansoddiad o ganlyniadau arolygu dros 600 o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd;
- ymweliadau arolygu â 23 o ysgolion (11 o ysgolion uwchradd a 12 o ysgolion cynradd). Dewiswyd yr ysgolion hyn naill ai ar y sail eu bod wedi cael sylwadau cadarnhaol yn eu hadroddiad arolygu mwyaf diweddar am y modd yr aethant ati i godi cyrhaeddiad bechgyn, ar sail ystyriaeth o ddata arholiadau diweddar, neu ar sail trafodaethau gyda swyddogion awdurdod lleol (ALl) ynglŷn ag arfer dda;
- tystiolaeth bellach o ymweliadau eraill yn cael eu gwneud ag ysgolion, a sgyrsiau ffôn gyda phenaethiaid a dirprwy benaethiaid pum ysgol uwchradd ychwanegol y dangosodd eu canlyniadau TGAU 2006 berfformiad uchel ac ychydig iawn o wahaniaeth rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched. Darparwyd dogfennau ychwanegol gan bedair o’r ysgolion hyn;
- gwybodaeth a gafwyd o drafodaethau gydag ymgynghorwyr ALl;
- archwilio dogfennaeth a data perfformiad a ddarparwyd gan ysgolion ac ALlau; ac
- adolygiad o ymchwil ddiweddar.

## Cefndir

2 Mae ysgolion yng Nghymru wedi cyflawni llawer iawn dros y ddau ddegawd diwethaf. Mae lefelau cyrhaeddiad disgyblion mewn asesiadau diwedd cyfnodau allweddol y Cwricwlwm Cenedlaethol (CC), arholiadau Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU) ac arholiadau Safon Uwch, wedi gwella cryn dipyn i gyd. Ar yr un pryd, mae gwelliannau mewn cyrhaeddiad merched wedi bod yn gyflymach na gwelliannau mewn cyrhaeddiad bechgyn ym mhob un o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol bron.

3 Mae Adroddiadau Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru wedi gwneud sylwadau yn gyson am y bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched. Yn 2006, dywedodd yr adroddiad:

> "Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'r bwlch rhwng pa mor dda mae bechgyn a merched yn cyflawni mewn asesiadau ac arholiadau mewn ysgolion wedi bod yn weddol gyson… Mae rhai ysgolion yn rhoi cynnig ar strategaethau gwahanol i wella perfformiad bechgyn… mae merched yn cyflawni'n well na bechgyn ym mhob ALl yng Nghymru… mae gwahaniaethau mawr rhwng ALlau o ran faint yn well y mae merched yn cyflawni na bechgyn…"

4 Ym mis Hydref 2006, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith,* sy'n datgan, "Er mwyn cynnal y gwelliant mewn safonau a gyflawnir yn ein hysgolion, bydd angen canolbwyntio'n gynyddol ar dangyflawniad cymharol bechgyn o gymharu â merched". Yn y cyd-destun hwn, mae prif ffocws yr adroddiad ar y ffactorau hynny sydd o fewn rheolaeth ysgolion, ac ar yr hyn y mae angen i ysgolion ei wneud i helpu cau'r bwlch. Yr her yw lledaenu arferion effeithiol a llwyddiannus yn ehangach ac yn gyson, fel bod ysgolion i gyd yn fwy llwyddiannus wrth wella cyrhaeddiad bechgyn er mwyn helpu bechgyn a merched gyflawni'u potensial.

5 Nid ffenomen ddiweddar yw'r gwahaniaethau rhwng cyrhaeddiad bechgyn a chyrhaeddiad merched, ac nid yw ychwaith yn gyfyngedig i Gymru. Mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng bechgyn a merched yn weddol gyson ar draws y byd datblygedig, yn enwedig yn y byd Saesneg ei iaith. Nid ymddengys bod y math o ysgol y mae disgyblion yn ei mynychu, gan gynnwys ysgolion cymysg neu ysgolion un rhyw, yn effeithio ar y bwlch hwn mewn cyrhaeddiad, a dangoswyd bod dosbarthiadau un rhyw yn cael canlyniadau anghyson.

6 Bu cryn ymdrechion, dadlau ac ymchwil i ganfod atebion ac i ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â thangyflawniad cymharol bechgyn. Er y bu llwyddiant mewn rhai ysgolion, yn gyffredinol, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a pherfformiad merched, yng Nghymru a thu hwnt, wedi gwrthsefyll yn ystyfnig unrhyw ymdrechion i gau'r bwlch hwnnw.

7 At ei gilydd, yn y blynyddoedd diweddar yng Nghymru, mae'r bwlch rhwng cyrhaeddiad merched a bechgyn wedi bod yn cynyddu. Yng Nghymru, mae bechgyn yn ennill llai o raddau TGAU neu'u cyfwerth nag yn unrhyw le arall yn y Deyrnas Unedig (DU). Mae bwlch tebyg mewn cyrhaeddiad ar lefel TGAU rhwng bechgyn a

merched ni waeth beth yw eu grwpiau dosbarth cymdeithasol. Nid yw effaith rhyw yn amrywio'n systematig i unrhyw raddau mawr ar draws dosbarth cymdeithasol.

8 Ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, ystyriwyd mai'r prif fater yn ymwneud â rhyw mewn addysg oedd perfformiad isel merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth. I ymateb i hynny, cafwyd newid mewn disgwyliadau, agweddau ac arfer yn yr ystafell ddosbarth i godi cyrhaeddiad merched. Mae'r bwlch rhwng cyrhaeddiad merched a bechgyn ar ddiwedd eu haddysg orfodol wedi cynyddu'n sylweddol er 1988. Mae newidiadau pwysig i'r cwricwlwm ac asesu wedi cael eu gwneud yn y cyfnod hwn, a'r mwyaf nodedig ohonynt yw cyflwyno TGAU a'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

9 Mae newidiadau cadarnhaol mewn agweddau tuag at ddewisiadau ehangach merched o ran ffordd o fyw, a gwell rhagolygon gyrfa, wedi gwneud gwahaniaeth hefyd i gyrhaeddiad cyffredinol merched.

10 At ei gilydd, yn y cyfnod cyn-ysgol, mae gan ferched fedrau cymdeithasol a gwybyddol gwell.

11 Yn gyffredinol, nid yw bechgyn yn ymddwyn gystal â merched yn yr ysgol. Caiff eu sylw'n ei wrthdynnu'n haws, maent yn fwy tueddol o ddangos eu hunain ac yn llai tebygol o ddilyn cyfarwyddiadau mewn perthynas â'r hyn maent yn ei wneud a'r modd y gallent ei wneud orau. Bechgyn yw bron i 80% o'r disgyblion sy'n cael eu gwahardd o ysgolion am y mathau mwyaf eithafol o ymddygiad. Mae mwyafrif mawr iawn o ddisgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn fechgyn.

12 Mae bechgyn yn fwy tebygol na merched o gael eu nodi gydag anghenion addysgol arbennig:

- mae 70% o blant y nodwyd bod ganddynt AAA yn fechgyn;
- mae bechgyn yn fwy tebygol na merched o fynychu ysgolion arbennig;
- mae bechgyn naw gwaith yn fwy tebygol na merched o gael eu nodi ag anhwylder sbectrwm awtistig; ac
- mae bechgyn bedair gwaith yn fwy tebygol na merched o gael eu nodi ag anhawster ymddygiad, emosiynol a chymdeithasol.

13 Dim ond un o nifer o ffactorau arwyddocaol yw rhyw sy'n effeithio'r graddau y mae disgyblion yn cyflawni'u potensial. Mae amgylchiadau economaidd-gymdeithasol ac ethnigrwydd yn bwysig hefyd.

## Prif ganfyddiadau

14 Y ffactor pwysicaf un wrth esbonio’r anhawster mwy y mae rhai bechgyn yn ei gael wrth ymdopi â gofynion dysgu ac addysgu yn yr ysgol yw bod llai o fechgyn na merched yn cyrraedd y lefel llythrennedd angenrheidiol i lwyddo. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas ag ysgrifennu, ac i raddau llai, darllen. Mae llythrennedd yn hanfodol i lwyddiant addysgol yn yr ysgol. Gan fod mwy o fechgyn na merched yn cael trafferth gyda llythrennedd, maent yn cael problemau hefyd o ran cael mynediad at y cwricwlwm ehangach. Mae’r anhawster hwn yn effeithio ar gynnydd nid yn unig mewn pynciau sy’n seiliedig iawn ar iaith, fel Cymraeg neu Saesneg a hanes, ond ar draws y cwricwlwm cyfan, gan fod medrau darllen a chofnodi yn bwysig ym mhob pwnc. Erbyn 14 oed, ni all lleiafrif sylweddol o fechgyn gadw i fyny â llawer o’r gwaith yn yr ysgol, ac maent yn teimlo rhwystredigaeth a methiant o ganlyniad i hynny.

15 Mae pwysau negyddol cyfoedion yn fwy ar gyfer bechgyn na merched. I rai bechgyn mae tensiwn rhwng bod yn dda yn yr ysgol ac ennill statws gyda’u grŵp cyfoedion. Gall hyn annog rhai bechgyn i adweithio yn erbyn awdurdod a bod yn ddifater tuag at waith a systemau gwobrwyo ysgolion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na all lawer o fechgyn gydbwyso gofynion gwahanol yn dda. Mae hyn yn golygu nad yw pob bachgen yn teimlo gwrthdaro rhwng ymgysylltu â dysgu a pherthnasoedd gyda’u cyfoedion. Mae mwyafrif o fechgyn yn gweithio’n galed yn yr ysgol ac yn cyflawni’n dda, er bod y nifer sy’n gwneud yn dda yn gostwng wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn. Mae cryn nifer yn llai o fechgyn na merched yn gadael yr ysgol uwchradd wedi cyflawni’r hyn y gellid yn rhesymol fod wedi disgwyl ganddynt ar sail yr hyn a gyflawnwyd ganddynt ar ddiwedd eu haddysg gynradd.

16 Nid oes unrhyw arwyddion bod y bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched yn lleihau ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1-3, nac ychwaith o newid yng nghyfrannau priodol bechgyn a merched sy’n ennill 5 neu fwy TGAU graddau A*-C dros y blynyddoedd diweddar.

17 Mae’r gwelliannau mewn perfformiad merched, yn enwedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan fydd ymdrechion go iawn i sicrhau newid. Yn hanfodol, mewn ysgolion sydd wedi bod yn llwyddiannus yn gwella perfformiad bechgyn, mae staff wedi’u hargyhoeddi y gallant godi cyflawniad yr holl ddisgyblion. Mae polisïau ac arferion ysgol gyfan sy’n gydlynus ac wedi’u cynllunio’n dda wedi bod yn ffactorau pwysig wrth gefnogi’u gwaith.

18 Fodd bynnag, mae llawer o ysgolion yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth rhy gyfyngedig o strategaethau i ddarparu ar gyfer y gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched o’r un oed o ran eu haeddfedrwydd a’u gallu cyffredinol fel dysgwyr unigol.

19 Mae cryn dipyn o gonsensws ynglŷn â’r mathau o ddysgu ac addysgu sy’n apelio at fechgyn. Mae lleiafrif o ysgolion wedi bod yn llwyddiannus wrth ddatblygu strategaethau penodol sydd wedi codi cyrhaeddiad bechgyn. Yn aml, mae’r strategaethau hyn yn golygu mireinio ymagweddau at ddysgu ac addysgu drwy herio canfyddiadau stereoteip a gwneud newidiadau i’r cwricwlwm. Mae’r newidiadau hyn

yn cynnwys darparu mwy o'r cyrsiau ymarferol a galwedigaethol y mae llawer o fechgyn yn eu gweld yn ddiddorol.

20 Yn yr ysgolion lle mae disgyblion yn perfformio'n dda a lle mai bwlch bychan yn unig sydd rhwng cyrhaeddiad bechgyn a chyrhaeddiad merched, mae ynddynt addysgu hefyd sy'n gwneud defnydd medrus o ymchwil ddiweddar i gydweddu arddulliau dysgu ac addysgu ag anghenion bechgyn, ac sy'n pennu disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad ac ymdrech.

21 Mae ysgolion sydd wedi llwyddo i godi medrau llythrennedd bechgyn yn dechrau drwy gydnabod cryfderau bechgyn ac adeiladu arnynt. Maent yn rhoi mwy o ddewisiadau i fechgyn yn eu tasgau darllen ac ysgrifennu, ac yn defnyddio'r cwricwlwm cyfan i'w helpu i ddatblygu'u medrau llythrennedd. Maent yn defnyddio gwaith llafar mewn drama, er enghraifft, i helpu bechgyn i ddatblygu hyder yn eu siarad a'u gwrando. Maent yn gweithio ar adeiladu hunangred a chymhelliant disgyblion trwy osod ac adolygu targedau ar gyfer disgyblion a darparu arweiniad da ar y modd y gellir cyflawni'r rhain.

22 Mae ysgolion llwyddiannus yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn fedrus fel rhan o'u strategaethau i gymell bechgyn a chodi'u cyrhaeddiad. Maent yn cydnabod bod natur ryngweithiol llawer o dechnolegau newydd yn helpu creu sefyllfaoedd dysgu lle gall bechgyn ddysgu trwy wneud, cael adborth uniongyrchol a thrwy adeiladu gwybodaeth newydd yn barhaus. Mae'r dull hwn yn unol â'r symudiad cyffredinol mewn arfer tuag at ddulliau sy'n canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr sy'n pwysleisio cyfranogiad gweithredol disgyblion yn y broses ddysgu, yn hytrach na'u rôl fel derbynwyr goddefol gwybodaeth. Mae ysgolion llwyddiannus yn manteisio ar yr agweddau cyffrous ar TGCh i gymell bechgyn ac yn ei defnyddio i ddylunio rhaglenni dysgu wedi'u teilwra ar gyfer unigolion.

23 Mae nifer fach o ysgolion wedi llwyddo i godi cyrhaeddiad bechgyn yn sylweddol dros gyfnod cymharol fyr. Maent wedi sicrhau eu bod yn modelu gwerthoedd cadarnhaol ac ymddygiad cadarnhaol sy'n gwrthbwyso barnau negyddol, yn herio agweddau stereoteip ynghylch gwrywdod, yn darparu cynlluniau mentora (gan ddefnyddio disgyblion hŷn, staff neu gynrychiolwyr diwydiant a masnach), ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i fechgyn arfer rheolaeth, cyfrifoldeb a dewis. Nid yw'r ysgolion mwyaf llwyddiannus yn trin bechgyn i gyd yr un fath. Maent yn dod o hyd i ffyrdd i gynorthwyo pob disgybl yn eu dysgu.

24 Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn pryderu ynghylch y bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a chyrhaeddiad merched. Mae awdurdodau unigol wedi datblygu mentrau defnyddiol i godi lefelau cyrhaeddiad bechgyn. Serch hynny, er gwaethaf ymdrechion uwch reolwyr a'u timau o ymgynghorwyr arbenigol yn yr awdurdodau, maent wedi methu lleihau'r bwlch rhwng y rhywiau yn gyffredinol. At ei gilydd, nid ydynt wedi gwneud y defnydd gorau o fewnwelediadau o'r nifer gymharol fach o ysgolion sydd wedi gwneud cynnydd nodedig wrth godi cyrhaeddiad bechgyn.

25 Mae rhai mentrau cyfredol yng Nghymru, fel y Cyfnod Sylfaen, y rhaglen codi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigolion (Rhagori), Llwybrau Dysgu 14-19, a'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, yn cynnig y potensial i godi cyrhaeddiad bechgyn heb effeithio'n niweidiol ar y safonau y mae merched yn eu cyflawni. Mae'r materion hyn yn cael ystyriaeth fanylach ar dudalennau 29-31.

## Argymhellion

Er mwyn cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a chyrhaeddiad merched:

**Dylai ysgolion:**

A1 ddyfeisio polisi ysgol gyfan cydlynus ar gyfer codi cyrhaeddiad bechgyn;

A2 canolbwyntio ar wella medrau llythrennedd bechgyn, o gyfnodau cynharaf addysg ac yn arbennig yn y cyfnod pontio o'r cynradd i'r uwchradd;

A3 dod o hyd i ffyrdd o ddiwallu anghenion dysgu unigol disgyblion trwy olrhain eu cynnydd a thargedu cymorth lle mae ei angen fwyaf;

A4 herio stereoteipio rhyw a gwneud mwy i ddarparu patrymau ymddwyn cadarnhaol sy'n gwrthbwyso barnau negyddol am ddysgu a chyflawniad academaidd ymhlith bechgyn;

A5 gwneud defnydd gwell o ddulliau dysgu, addysgu ac asesu sy'n apelio'n benodol at lawer o fechgyn. Mae'r rhain yn cynnwys darparu:

- mwy o gyfleoedd i drafod;
- mwy o amrywiaeth mewn gwersi, gan gynnwys gweithgareddau cystadleuol;
- targedau a nodau tymor byr; ac
- amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu, gan gynnwys defnyddio TGCh, a chlybiau gwaith cartref a medrau astudio;

**Dylai awdurdodau lleol:**

A6 roi blaenoriaeth uchel i raglenni llythrennedd sy'n gwella medrau llythrennedd bechgyn;

A7 sicrhau bod ysgolion yn gosod targedau ar gyfer codi cyrhaeddiad bechgyn;

A8 darparu data perfformiad i ysgolion ar gyrhaeddiad cymharol bechgyn a merched o gymharu â normau cenedlaethol a normau wedi'u meincnodi;

A9 cynorthwyo ysgolion i ddatblygu partneriaethau gyda darparwyr eraill addysg er mwyn ehangu dewis y cwricwlwm a bodloni anghenion unigol;

A10 lledaenu'r arfer orau wrth godi cyrhaeddiad bechgyn o'r:

- ysgolion mwyaf llwyddiannus; a
- chanfyddiadau ymchwil gyfredol;

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A11 ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer codi cyrhaeddiad bechgyn ar sail gwella medrau llythrennedd, dysgu wedi’i bersonoli ac asesu ar gyfer dysgu;

A12 sicrhau bod hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol cynnar a pharhaus yn canolbwyntio ar wella medrau llythrennedd, ehangu arddulliau addysgu a dysgu, a rheoli ymddygiad yn effeithiol; a

A13 chomisiynu ymchwil i paham y mae asesiadau athrawon yn tueddu ffafrio merched yn fwy na phrofion ac arholiadau allanol.

# Y bwlch cyrhaeddiad


**Beth yw'r dangosyddion perfformiad?**

**Canlyniadau asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd cyfnodau allweddol**

26 Am y ddau ddegawd diwethaf yng Nghymru, mae merched wedi perfformio'n well na bechgyn mewn Saesneg a Chymraeg. Yn fwy diweddar, mae merched wedi perfformio'n well na bechgyn hefyd ym mhob un o feysydd y cwricwlwm bron, ac ym mhob un o'r cyfnodau allweddol addysg bron. O ganlyniad, mae'r pryder wedi dwysáu ynglŷn â'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a chyrhaeddiad merched. Mae merched wedi perfformio'n well na bechgyn yn gyson ym mhob un o'r pynciau craidd ym mhob un o'r cyfnodau allweddol. Mae Graffiau 1 i 5 yn dangos y gwahaniaethau pwyntiau canran rhwng sgorau merched a bechgyn mewn asesiadau diwedd cyfnodau allweddol.

**Y graddau y mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yng nghyfnod allweddol 1**


**Graff 1**




27 Mae Graff 1 yn dangos, rhwng 2004 a 2006, bod bwlch o ryw 10 pwynt canran rhwng niferoedd y merched a bechgyn sy'n cyrraedd y lefel a ddisgwylir yn genedlaethol (lefel 2 neu uwch) mewn Saesneg. Mae'r bwlch yn llai mewn Cymraeg, ar ryw chwe phwynt canran. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth mae'r bwlch yn llai fyth, ar ryw bedwar pwynt canran. Yn y dangosydd pwnc craidd (DPC) fe wnaeth ryw wyth pwynt canran yn fwy o ferched gyrraedd y lefelau a ddisgwylir yn genedlaethol ym mhob un o'r tri phwnc craidd (Saesneg neu Gymraeg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth).

**Y graddau y mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yng nghyfnod allweddol 2**


**Graff 2**




28 Mae Graff 2 yn dangos, rhwng 2004 a 2006, bod gwahaniaethau o rwng 8 a 10 pwynt canran rhwng cyfran y merched a bechgyn a gyrhaeddodd y lefel a ddisgwylir yn genedlaethol (lefel 4 neu uwch) mewn Saesneg. Mewn cyferbyniad â chyfnod allweddol 1, mae'r bwlch yn fwy mewn Cymraeg, lle'r oedd gwahaniaethau o rwng 11 a 15 o bwyntiau canran rhwng y cyfrannau o ferched a bechgyn a gyrhaeddodd y lefel a ddisgwylir yn genedlaethol. Fe all hyn fod yn sgil y cynnydd yn y gwaith ysgrifenedig y mae disgyblion yn ei wneud mewn Cymraeg cyfnod allweddol 2. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae'r bwlch yn parhau yn rhyw bedwar pwynt canran, ac yn y DPC mae'n parhau yn rhyw wyth pwynt canran.

**Y graddau y mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yng nghyfnod allweddol 3**


**Graff 3**




29 Mae Graffiau 2 a 3 yn dangos, rhwng 2004 a 2006, sut mae'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched yn y pynciau craidd wedi cynyddu rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3. Mewn Saesneg a Chymraeg y mae'r bwlch hwn fwyaf. Wrth i ddisgyblion symud o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3, mae'r gofynion ar eu medrau llythrennedd yn cynyddu. Mae methiant bechgyn i gadw i fyny â merched mewn medrau iaith yn effeithio ar berfformiad yn gyffredinol.

**Y graddau y mae merched yn perfformio’n well na bechgyn mewn pynciau craidd mewn canlyniadau TGAU yng nghyfnod allweddol 4**

**Graff 4**




30 Mae Graff 4 yn dangos, rhwng 2004 a 2006 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau terfynol ar gael ar ei chyfer) bod gwahaniaethau rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn iaith yn cynyddu mwy fyth. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae bwlch o rhwng 16 ac 18 pwynt canran yn agor rhwng merched a bechgyn a enillodd radd C neu uwch mewn Saesneg. Mewn Cymraeg, mae hyn yn codi i rhwng 18 ac 20 o bwyntiau canran. Mae’r bwlch yn llai o lawer mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

31 Mae tystiolaeth dros dro ar gyfer 2007 yn dangos nad oes unrhyw wahaniaeth yn y tueddiadau cyrhaeddiad ym mhob cyfnod allweddol i’r rheiny ar gyfer 2004-2006.

32 Mae’r tablau canlynol yn dangos canlyniadau asesiadau athrawon o gyrhaeddiad disgyblion 14 oed yn naw pwnc sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol, a chanran y merched sy’n cyrraedd lefel 5 o leiaf (y lefel ddisgwyliedig ar gyfer plant 14 oed). Mae’r cyntaf yn dangos y pynciau lle mae’r bwlch rhwng cyrhaeddiad merched a bechgyn leiaf, ac mae’r ail yn dangos y pynciau lle mae’r bwlch fwyaf. Ar wahân i rai canlyniadau mewn addysg gorfforol, fe wnaeth merched gyflawni canlyniadau gwell na bechgyn ym mhob pwnc ym mhob blwyddyn rhwng 2001 a 2006, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer ar hyn o bryd.

**Y gwahaniaeth yng nghanrannau'r merched a bechgyn sy'n cyrraedd lefel 5 o leiaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 3**

**Pynciau sylfaen lle mae'r bwlch pwyntiau canran mewn cyrhaeddiad ar ei leiaf**

| Blwyddyn | Daearyddiaeth | Hanes | Technoleg gwybodaeth | Addysg gorfforol | Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|
| 2001 | 9 | 12 | 7 | -4 | 2001 |
| 2002 | 9 | 11 | 8 | 0 | 2002 |
| 2003 | 10 | 11 | 9 | 2 | 2003 |
| 2004 | 10 | 12 | 9 | 1 | 2004 |
| 2005 | 8 | 11 | 10 | -1 | 2005 |
| 2006 | 9 | 11 | 10 | 1 | 2006 |

**Pynciau sylfaen lle mae'r bwlch pwyntiau canran mewn cyrhaeddiad ar ei fwyaf**

| Blwyddyn | Celf | Dylunio a thechnoleg | Leithoedd tramor modern | Cerddoriaeth | Cymraeg ail iaith |
|---|---|---|---|---|---|
| 2001 | 18 | 16 | 19 | 19 | 19 |
| 2002 | 17 | 17 | 19 | 16 | 19 |
| 2003 | 17 | 17 | 19 | 16 | 19 |
| 2004 | 17 | 15 | 19 | 15 | 21 |
| 2005 | 17 | 14 | 19 | 15 | 20 |
| 2006 | 17 | 15 | 18 | 16 | 20 |

33 Ar lefel TGAU, mae perfformiad merched yn well na pherfformiad bechgyn yn y ddau brif ddangosydd: canran y disgyblion sy'n ennill o leiaf 5 gradd A*-C; a'r ganran sy'n enill o leiaf gradd C neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth, (y DPC). Rhwng 2001 a 2006, mae bwlch o rhwng 10 a 12 pwynt canran yn agor. Yn y dangosydd pwnc craidd (DPC), mae'r bwlch yn rhyw 7 pwynt canran.

34 Mae merched yn ennill canlyniadau gwell na bechgyn ym mhob pwnc bron ar lefel TGAU. Yn 2005 a 2006, roedd y bylchau mwyaf mewn Saesneg a Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg mamiaith a Llenyddiaeth Gymraeg, Cymraeg ail iaith, ieithoedd tramor modern a chelf a dylunio. Roedd y bylchau lleiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth ac addysg gorfforol. Fe wnaeth canrannau ychydig yn uwch o fechgyn na merched ennill gradd A*-C mewn gwyddorau biolegol, cemeg a ffiseg (pynciau sy'n cael eu hastudio gan niferoedd cymharol fach o ddisgyblion galluog iawn fel arfer yn y gwyddorau) ac economeg, sydd â nifer fach o ymgeiswyr.

35 Yn 2006, cyflawnodd bechgyn canlyniadau TGAU gwell na merched mewn ychydig dros 10% o ysgolion lle mae modd gwneud cymariaethau uniongyrchol. Fodd bynnag, ym mhob achos bron, y rheswm oedd cyrhaeddiad gwan merched yn hytrach na pherfformiad cryfach na'r disgwyl gan fechgyn. Ym mhob un ac eithrio un neu ddwy o'r ysgolion hyn, roedd cyrhaeddiad merched islaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer merched (58%), ac mewn rhyw dri chwarter o'r ysgolion, roedd eu cyrhaeddiad islaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer bechgyn (46%). Trafodir y rhesymau posibl am hyn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

**Amrywiadau mewn cyrhaeddiad bechgyn a merched yn ôl awdurdod lleol**

36 Yn 2006, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer, cyflawnodd merched ganlyniadau gwell na bechgyn yn y DPC ar gyfer pob cyfnod allweddol ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae cryn amrywio yn y graddau y mae cyrhaeddiad merched yn well na chyrhaeddiad bechgyn rhwng cyfnodau allweddol ac o fewn awdurdodau. Mae'r tablau isod yn rhoi mwy o fanylion am bob cyfnod allweddol a'r bwlch rhwng yr hyn a gyflawnodd bechgyn a merched yn yr awdurdodau lleol priodol.

**Cyfnod allweddol 1: Y bwlch pwyntiau canran mewn cyrhaeddiad bechgyn a merched yn y DPC**

| Llai na 5 pwynt canran | Llai na 10 a mwy na 5 | Llai na 15 a mwy na 10 | Llai nag 20 a mwy na 15 | Llai na 25 a mwy na 20 |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn<br>Castell-nedd Port Talbot | Gwynedd<br>Conwy<br>Sir Ddinbych<br>Wrecsam<br>Powys<br>Ceredigion<br>Sir Benfro<br>Sir Gaerfyrddin<br>Abertawe<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>Bro Morgannwg<br>Caerffili<br>Mynwy<br>Casnewydd<br>Caerdydd | Sir y Fflint<br>Rhondda Cynon Taf<br>Torfaen | Blaenau Gwent | Merthyr Tudful |

**Cyfnod allweddol 2: Y bwlch pwyntiau canran mewn cyrhaeddiad bechgyn a merched yn y DPC**

| Llai na 5 pwynt canran | Llai na 10 a mwy na 5 | Llai na 15 a mwy na 10 | Llai nag 20 a mwy na 15 | Llai na 25 a mwy na 20 |
|---|---|---|---|---|
| Sir y Fflint | Ynys Môn<br>Gwynedd<br>Conwy<br>Sir Ddinbych<br>Wrecsam<br>Powys<br>Sir Benfro<br>Sir Gaerfyrddin<br>Abertawe<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>Bro Morgannwg<br>Merthyr Tudful | Rhondda Cynon Taf<br>Castell-nedd Port Talbot<br>Blaenau Gwent<br>Casnewydd | Ceredigion<br>Torfaen | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Caerffili<br>Mynwy<br>Caerdydd | | | |

**Cyfnod allweddol 3: Y bwlch pwyntiau canran mewn cyrhaeddiad bechgyn a merched yn y DPC**

| Llai na 5 pwynt canran | Llai na 10 a mwy na 5 | Llai na 15 a mwy na 10 | Llai nag 20 a mwy na 15 | Llai na 25 a mwy na 20 |
|---|---|---|---|---|
| Wrecsam<br>Sir y Fflint<br>Pen-y-bont ar Ogwr | Ynys Môn<br>Gwynedd<br>Conwy<br>Caerdydd<br>Casnewydd | Sir Ddinbych<br>Powys<br>Ceredigion<br>Sir Benfro<br>Sir Gaerfyrddin<br>Abertawe<br>Bro Morgannwg<br>Rhondda Cynon Taf<br>Castell-nedd Port Talbot<br>Merthyr Tudful<br>Caerffili | Torfaen<br>Blaenau Gwent<br>Mynwy | |

37 Mae'r tablau'n dangos bod merched wedi cyflawni gwell canlyniadau na bechgyn yn y DPC ar gyfer cyfnod allweddol 1 i 3 ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, er bod cryn amrywio yn y graddau y mae merched yn cyflawni'n well na bechgyn rhwng cyfnodau allweddol ac o fewn awdurdodau. Yn hanfodol, mewn rhai awdurdodau lleol (ALlau) lle mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn gymharol fach, y rheswm am hyn yw cyrhaeddiad cymharol wannach gan ferched, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, yn hytrach na pherfformiad cryfach gan fechgyn.

38 Er ei bod yn anodd cyffredinoli ynghylch amrywiadau rhanbarthol, yn gyffredinol, mae'r bwlch yn tueddu bod yn sylweddol lle mae lefelau cymharol uchel o amddifadedd economaidd-gymdeithasol.

39 Mae'r tabl canlynol yn rhoi mwy o fanylion ar gyfer y gyfran o ddisgyblion sy'n ennill y DPC ac o leiaf 5 gradd A*-C a'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a chyrhaeddiad merched yn yr awdurdodau lleol priodol. Mewn un ALl, mae'r bwlch ar gyfer y ddau ddangosydd yn gyson fach. Y rheswm rhannol am hyn yw bod nifer o ysgolion lle mae bechgyn a merched yn cyflawni'n dda, ond hefyd am fod cynnydd sylweddol yng nghyrhaeddiad disgyblion mewn un ysgol i fechgyn yn y blynyddoedd diweddar. Sonnir am yr ysgol yn astudiaeth achos 6 yn Atodiad 1.

## Y gwahaniaeth pwyntiau canran mewn cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn TGAU ar lefel Awdurdod Lleol

| Dangosydd | Llai na 5 pwynt canran | Llai na 10 a mwy na 5 | Llai na 15 a mwy na 10 | Llai nag 20 a mwy na 15 | Llai na 25 a mwy nag 20 |
|---|---|---|---|---|---|
| **5 neu fwy o raddau A*-C mewn TGAU: 2005** | Bro Morgannwg | Castell-nedd Port Talbot; Casnewydd | Ynys Môn; Gwynedd; Conwy; Sir Ddinbych; Sir y Fflint; Wrecsam; Sir Benfro; Sir Gaerfyrddin; Abertawe; Pen-y-bont ar Ogwr; Rhondda Cynon Taf; Merthyr Tudful; Caerffili; Blaenau Gwent; Caerdydd; Sir Fynwy | Torfaen; Powys | Ceredigion |
| **5 neu fwy o raddau A*-C mewn TGAU: 2006** | Bro Morgannwg | Conwy; Wrecsam; Abertawe; Merthyr Tudful; Blaenau Gwent; Casnewydd | Ynys Môn; Gwynedd; Sir Ddinbych; Sir y Fflint; Powys; Sir Gaerfyrddin; Castell-nedd Port Talbot; Rhondda Cynon Taf; Caerdydd; Sir Fynwy | Ceredigion; Sir Benfro; Torfaen; Pen-y-bont ar Ogwr; Caerffili | |
| **Canran y disgyblion yn ennill y DPC gyda lefel gradd C o leiaf: 2005** | Conwy; Sir y Fflint; Bro Morgannwg | Ynys Môn; Gwynedd; Sir Ddinbych; Wrecsam; Sir Benfro; Abertawe; Castell-nedd Port Talbot; Pen-y-bont ar Ogwr; Rhondda Cynon Taf; Merthyr Tudful; Caerffili; Torfaen; Caerdydd; Casnewydd | Powys; Ceredigion; Sir Gaerfyrddin; Blaenau Gwent; Sir Fynwy | | |
| **Canran y disgyblion yn ennill y DPC gyda lefel gradd C o leiaf: 2006** | Gwynedd; Conwy; Wrecsam; Blaenau Gwent | Ynys Môn; Sir Ddinbych; Sir y Fflint; Powys; Sir Gaerfyrddin; Abertawe; Pen-y-bont ar Ogwr; Bro Morgannwg; Rhondda Cynon Taf; Merthyr Tudful; Torfaen; Caerdydd; Casnewydd; Sir Fynwy | Ceredigion; Sir Benfro; Castell-nedd Port Talbot; Caerffili | | |

## Pam mae merched yn gwneud yn well na bechgyn yn yr ysgol?

### Gwahaniaethau o ran datblygiad

40 Y rheswm pwysicaf dros fod merched yn gwneud yn well na bechgyn yw bod problemau llythrennedd gan niferoedd uwch o fechgyn, ac o ganlyniad ni allant fynd yn hawdd at y cwricwlwm ehangach. Mae'r bwlch mewn medrau iaith rhwng bechgyn a merched yn bodoli hyd yn oed cyn iddynt ddechrau'r ysgol. Mae'r asesiadau gwaelodlin ar gyfer plant pan fyddant yn dechrau'r ysgol yn dangos, mewn hyd at gymaint â 90% o ysgolion cynradd, bod sgorau iaith cyfartalog merched yn uwch na sgorau iaith bechgyn. Mae astudiaethau'n dangos bod gwahaniaethau rhyw sylweddol mewn datblygiad deallusol a datblygiad ymddygiad cymdeithasol plant ifanc wrth ddechrau'r cyfnod cyn-ysgol. Mae gan ferched:

- lefelau gwell o ddatblygiad cymdeithasol na bechgyn, yn enwedig mewn perthynas â chydweithredu, cydymffurfio ac annibyniaeth a chanolbwyntio;
- cyrhaeddiad uwch na bechgyn yn yr holl ganlyniadau gwybyddol; a
- mwy o allu mewn medrau cyn-darllen, cysyniadau rhif cynnar a rhesymu di-eiriau na bechgyn dros y cyfnod cyn-ysgol.

41 Mae'r cyfraddau gwahanol hyn o ran datblygiad yn golygu bod llawer mwy o ferched na bechgyn yn ei chael hi'n haws dod yn ddysgwyr hyderus a llwyddiannus mewn lleoliadau ysgol. Un canlyniad uniongyrchol gysylltiedig yw bod merched yn fwy tebygol o lawer o fod â diddordeb mewn darllen, ac i raddau llai, ysgrifennu. Mae'n cymryd plentyndod cyfan a blaenlencyndod i gydraddoli'r gwahaniaethau hyn mewn medrau cymdeithasol a chyfathrebu, sydd yn gyffredinol yn fwy datblygedig mewn merched nag mewn bechgyn.

### Agweddau at ddysgu

42 Mae tystiolaeth helaeth o lawer o wledydd bod gan ferched agweddau gwahanol yn aml na bechgyn at ddysgu. Mae merched yn fwy tebygol o lawer na bechgyn o addasu at ddysgu sy'n seiliedig ar lawer iawn o wrando, darllen ac ysgrifennu. Mae merched yn llai tebygol na bechgyn o anesmwytho os oes rhaid iddynt eistedd a gwrando am gyfnodau hir, neu os oes rhaid iddynt ymgymryd â thasgau sy'n gofyn fawr fwy na medrau ailadrodd a chadarnhau gwybodaeth a gafwyd yn barod. Mae merched yn ymateb yn well na bechgyn yn aml i weithgareddau sy'n ymwneud ag ysgrifennu estynedig. Mae mwy o ferched na bechgyn yn barod i ymgymryd â darnau hir o waith a dyfalbarhau â hwy, hyd yn oed yn absenoldeb adborth cyson gan athrawon.

43 Mae'r dystiolaeth yn dynodi bod mwy o ferched na bechgyn yn gyffredinol yn talu mwy o sylw o lawer ac yn ymddwyn yn well mewn gwersi. Daw hyn yn fwyfwy gwir pan na fydd gwersi'n ddiddorol ac wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn. Mae'r rhesymau dros fod lleiafrif sylweddol o fechgyn yn colli diddordeb a chymhelliant yng nghyfnodau cynnar addysg uwchradd yn cynnwys:

- y ffocws cryf sydd ar eistedd am gyfnodau hir mewn tawelwch cymharol;
- y disgwyliad mai atebion byr, cadarnhaol yn unig ddylent roi i gwestiynau athrawon;
- cwricwlwm academaidd yn bennaf ac asesu sy'n seiliedig ar adolygu a galw gwaith i gof;
- y pwyslais ar ysgrifennu mewn llawer o wersi; a
- thraddodiad o osod gwaith cartref sy'n dasgau adolygu neu ysgrifennu.

**Newidiadau yn y cwricwlwm ac mewn asesu**

44 Mae materion hefyd sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm a chynnwys pynciau. Dadleuwyd, dros yr 20 mlynedd diwethaf, bod y cwricwlwm ysgol wedi'i ail-gynllunio i ganolbwyntio'n llai ar fechgyn, er enghraifft trwy roi mwy o ffocws ar ysgrifenwyr ac arlunwyr sy'n ferched, a rhoi mwy o bwyslais ar astudio bywydau menywod a phlant mewn hanes, i'w wneud yn berthnasol i'r ddau ryw. Un canlyniad wrth gwrs yw bod rhywfaint o'r cwricwlwm hwn yn mynd yn llai perthnasol i brofiad bechgyn. Mae materion eraill yn cynnwys cynnydd canfyddedig ym maint gwaith theori mewn rhai pynciau - mewn dylunio a thechnoleg, celf a dylunio ac addysg gorfforol, er enghraifft - a datblygu dulliau mwy thematig wedi'u harwain gan faterion mewn daearyddiaeth, ar draul testunau mwy ffeithiol. Nid oes amheuaeth bod newidiadau felly yn angenrheidiol i roi gwell cydbwysedd i'r hyn a oedd yn cael ei addysgu mewn ysgolion. Fe all adlinio cynnwys y cwricwlwm fel hyn gael effaith negyddol ar lefelau diddordeb a chymhelliant bechgyn, er y gall hefyd gael effaith gadarnhaol i ferched.

45 Mae bechgyn yn tueddu bod yn fwy hoff o ddeunydd darllen ffeithiol sy'n cynnwys diagramau a lluniau. Dengys nifer o astudiaethau bod bechgyn yn perfformio gryn dipyn yn well mewn tasg dealltwriaeth darllen sydd â chynnwys ffeithiol o gymharu ag un sy'n seiliedig ar ffuglen naratif. Mae cynnwys yn dylanwadu llai ar sgorau dealltwriaeth darllen merched. Mewn Cymraeg a Saesneg, mae'r dewis o ddeunyddiau darllen yn bwysig. Mae llawer o fechgyn yn tueddu cymryd mwy o ddiddordeb ac yn cyflawni safonau uwch os yw eu rhaglen ddarllen yn cynnwys deunydd ffeithiol, straeon byrion a deunydd sy'n cynnwys antur, her a chyflawniad. Mae niferoedd cynyddol o ysgolion yn cynnwys deunydd felly yn eu rhaglenni. Fodd bynnag, erys yn wir bod llawer o raglenni darllen yn canolbwyntio ar weithiau hir. Ffuglen sy'n tynnu ar ddychymyg ac sy'n gofyn am empathi a deallusrwydd emosiynol yw llawer o hwn. Mae apêl deunydd felly yn fwy i ferched na bechgyn.

46 Darnau naratif yw'r rhan fwyaf o ddarnau sy'n cael eu dewis ar gyfer asesu safonau mewn darllen, ac mae mwy o ferched o lawer na bechgyn yn esmwyth ac yn hyderus gyda'r genre hwn. Yn ogystal, mae merched yn fwy tebygol o lawer o ddarllen ffuglen, ac mae'r profiad hwn o strwythur naratif yn eu paratoi'n well ar gyfer yr ysgrifennu estynedig a myfyrgar y rhoddir gwerth mawr arno mewn asesiadau.

47 Mae'r gwelliannau mewn cyrhaeddiad gan ferched mewn mathemateg a gwyddoniaeth ers canol y 1980au wedi cyd-daro â threfniadau asesu newydd sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC). Mae'r rhain wedi cynnwys ffocws llawer mwy ar ymchwilio ac ymholi, yn gofyn yn aml am fwy o waith darllen ac ysgrifennu. Yn unol â hynny, mae'r

adnoddau sydd wedi'u cynhyrchu ar gyfer y gweithgareddau hyn hefyd yn gofyn am fedrau llythrennedd da yn aml.

48 Mae'r gwelliant mewn cyrhaeddiad merched yng nghyfnod allweddol 4 wedi cyd-daro i raddau helaeth â chyflwyno meysydd llafur ac arholiadau TGAU yng nghanol y 1980au. Mae'r rhain wedi cynnwys rôl amlycach o lawer i asesiadau athrawon, ac, ar lefel TGAU, cynnydd mawr mewn gwaith cwrs mewn llawer o bynciau.

49 Lle mae gwaith cwrs yn cael ei asesu, mae llawer o ferched yn tueddu cwblhau'u gwaith yn brydlon, ac maent yn fwy awyddus i drefnu a chyflwyno'r gwaith yn daclusach na bechgyn, sydd yn aml yn rhoi llai o werth ar y medrau hyn. Mewn trafodaethau gyda disgyblion mewn ysgolion yr ymwelwyd â hwy ar gyfer yr arolwg hwn, roedd bechgyn yn rhoi llai o bwys o lawer na merched ar gwblhau gwaith cartref hyd orau eu gallu neu ar baratoi'n drylwyr ar gyfer profion mewnol. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn adrodd, pan oedd profion ac asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol ar waith, roedd bechgyn yn gwneud yn waeth na merched mewn asesiadau athrawon yn hytrach nag mewn profion. Fe allai hyn roi bechgyn dan fwy fyth o anfantais o ran yr hyn y gallant ei gyflawni mewn ysgolion.

50 Ffactor arwyddocaol arall yw, er ei bod yn well o lawer gan fechgyn rai mathau o addysgu a dysgu, a'u bod yn cyflawni'n well o ganlyniad i hynny, mae gallu merched i addasu yn golygu eu bod hwythau'n ymateb yn dda i arddulliau addysgu a dysgu hefyd, ac mae eu perfformiad hwy yn gwella yn ogystal. Felly, tra bod bechgyn yn symud tuag at gyrraedd y lefelau a gyrhaeddodd merched ddegawd yn ôl, mae'r merched hefyd yn gwella yn y cyfamser, ac mae'r bwlch yn parhau.

### Ffactorau ymddygiad

51 Mae ymchwil ddiweddar[1] yn dangos bod patrymau ymddygiad cyffredin mewn merched yn tueddu eu rhagdueddu at ddysgu yn yr ysgol, tra mai'r gwrthwyneb sy'n wir i fechgyn weithiau. Er enghraifft:

- mae pwysau negyddol cyfoedion yn debygol o effeithio ar niferoedd uwch o fechgyn, gan eu gwneud yn fwy parod i adweithio yn erbyn awdurdod ac ymddwyn mewn modd aflonyddgar. Mae'r duedd hon yn dwysau mewn

---

[1] *Underachievement in Secondary Schools: Attitudes and Gender Differences among Year 9 Pupils* (Emma Smith, David Ellis a Sue Freye). Mae ffocws ar Gymru yn yr erthygl, ac ymddangosodd yng Nghylchgrawn Addysg Cymru, Cyfrol 9, Rhif 1 (2000).
Sukhnandan, L., Lee, B. & Kelleher, S. (2000). *An Investigation into Gender Differences in Achievement: Phase 2: School and Classroom Strategies*, Slough: NFER.
Dyfynnwyd yn **Gender and Education: the evidence on pupils in England**
**Cyhoeddiad gan yr Adran Addysg a Sgiliau: Gorffennaf 2007**
MacDonald, A., Saunders, L. & Benefield, P. (1999). *Boys' Achievement, Progress, Motivation and Participation: Issues Raised by Recent Literature*. Slough: NFER.
Dyfynnwyd yn **Gender and Education: the evidence on pupils in England**
**Cyhoeddiad gan yr Adran Addysg a Sgiliau: Gorffennaf 2007**
Arnot, M., Gray, J., James, M., Rudduck, J. & Duveen, G. (1998). *Recent Research on Gender and Educational Performance*, Ofsted.
Dyfynnwyd yn **Gender and Education: the evidence on pupils in England**
**Cyhoeddiad gan yr Adran Addysg a Sgiliau: Gorffennaf 2007**
Forde, C., Kane, J., Condie, R., McPhee, A. & Head, G. (2006). *Strategies to Address Gender Inequalities in Scottish Schools: A Review of the Literature*, Ymchwil Gymdeithasol gan Weithrediaeth yr Alban.
Dyfynnwyd yn **Gender and Education: the evidence on pupils in England**

blaenlencyndod, ac mae rhyw 80% o ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd yn fechgyn;

- bu newidiadau cadarnhaol mewn agweddau merched tuag at ddysgu, tra bod agweddau gwael gan nifer fwy o fechgyn;

- mae mwy o lawer o fechgyn na merched yn cael beirniadaeth ac yn teimlo synnwyr o fethiant yn yr ysgol. Mae hyn, yn ei dro, yn creu hunan-barch isel, disgwyliadau cyfyngedig a diffyg dyhead mewn lleiafrif sylweddol;

- mae merched yn fwy tueddol o lawer o roi statws uchel i ddisgyblion sy'n gweithio'n galed ac yn cyflawni'n uchel;

- mae gan lawer mwy o fechgyn na merched uchelgeisiau difrifol, ond afrealistig fel arfer, i fod yn enwog yn y byd chwaraeon, yn sêr roc neu'n syml i fod yn 'gyfoethog ac yn enwog';

- mae bechgyn yn fwy hyderus a didaro ynglŷn â'u gallu i ymdopi â phrofion ac arholiadau. Mae'r hyder hwn yn anghywir yn aml, fodd bynnag; ac

- mae bechgyn yn fwy amlwg o lawer ymhlith disgyblion sy'n tangyflawni. Yn aml maent yn dangos medrau astudio gwael, diffyg trefn, agweddau negyddol at weithio, ac yn teimlo'n ddifater tuag at systemau gwobrwyo ysgolion.

**Ffactorau cymdeithasol**

52 Hyd at yn gymharol ddiweddar, roedd disgwyliadau cymdeithasol yn rhwystr pwerus i lawer o ferched rhag cyflawni'u potensial. Yn aml, roedd y farn weddol eang na fyddai merched yn canlyn nodau gyrfa hirdymor oherwydd ymrwymiadau teulu tebygol, yn cael effaith ar gymhelliant a dyhead merched. Cafodd hyn ddylanwad digalon yn arbennig ar gyflawniad a chyrhaeddiad merched o gefndiroedd dosbarth gweithiol. Mae'r agweddau hyn yn llai amlwg o lawer nag yr oeddent.

53 Nid oes gan leiafrif sylweddol o fechgyn fawr o gyswllt neu ddim cyswllt gyda'u tadau, ac ychydig o gyswllt â gwrywod y mae llawer yn ei gael yn y cartref. Nid oes gan y bechgyn hyn batrwm ymddwyn oedolyn gwryw cadarnhaol yn eu bywydau personol, a gall hyn fod yn ffactor sy'n dylanwadu ar eu dyheadau.

54 Mae llawer o arsylwyr hefyd yn teimlo bod y dirywiad economaidd sylweddol ers dechrau'r 1980au yn y diwydiannau trwm a'r diwydiannau gweithgynhyrchu, gyda cholli cyflogaeth â chyflog cymharol dda i ddynion, wedi cael effaith negyddol ar ddyheadau a chymhelliant lleiafrif sylweddol o fechgyn yn yr ardaloedd hynny yr effeithiwyd arnynt fwyaf. Gall hyn fod yn wir mewn rhai achosion. Serch hynny, rhaid cofio hefyd fod tystiolaeth anecdotaidd bwerus bod ysgolion, pan oedd digonedd o waith yn y diwydiannau trwm a'r diwydiannau gweithgynhyrchu, yn parhau i gael trafferth i gymell a chadw niferoedd sylweddol o fechgyn, a oedd yn benderfynol o fynd i gyflogaeth a'r economi cyflogau mor gynnar â phosibl.

### Patrymau ymddwyn mewn ysgolion

55 Cyfeirir yn aml at y dirywiad yn nifer yr athrawon sy'n ddynion, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, fel ffactor yn y bwlch mewn cyrhaeddiad bechgyn a merched. Dim ond rhyw 15% o athrawon ysgolion cynradd sy'n ddynion, ac mae ffigurau recriwtio cyfredol yn awgrymu y bydd y ganran hon yn dirywio ymhellach. Nid oes unrhyw athrawon sy'n ddynion mewn llawer o ysgolion cynradd. Yn sicr mae'r sefyllfa yn golygu bod llai o batrymau ymddwyn gwryw cadarnhaol mewn ysgolion na degawd yn ôl hyd yn oed. Fodd bynnag, ychydig dystiolaeth y mae ymchwil ddiweddar [2] wedi'i chanfod bod disgyblion o'r naill ryw yn rhoi blaenoriaeth uchel i ryw eu hathrawon. Mae bylchau hefyd rhwng yr hyn y mae bechgyn a merched yn ei gyflawni mewn ysgolion mewn gwledydd lle mae cyfrannau uwch o athrawon gwryw. Mae tystiolaeth gref i gefnogi canfyddiadau ymchwil mai ansawdd yr addysgu yw'r dylanwad pwysicaf ar ddisgyblion, yn hytrach na chael mwy o athrawon gwryw fel patrymau ymddwyn.

[2] Myhill, D.A. & Jones, S. She Doesn't Shout at No Girls. Pupils' Perceptions of Gender Equality in the Classroom. *Cambridge Journal of Education*, 36, 1, 63-77.
Dyfynnwyd yn **Gender and Education: the evidence on pupils in England**

## Pam mae’r bwlch cyrhaeddiad yn cynyddu wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn?

56 Erbyn diwedd yr ysgol gynradd, mae mwy o fechgyn o lawer na merched yn parhau heb y medrau llythrennedd a fydd yn eu paratoi i gael mynediad i lawer o’r cwricwlwm ac ennill graddau uchel mewn profion ac arholiadau. Mae’r broses hon yn dwysáu wrth i ddisgyblion symud ymlaen i’r ysgol uwchradd. Er y dylid cofio bod cyrhaeddiad bechgyn wedi gwella’n sylweddol dros y degawd diwethaf, nid yw wedi gwella o gymharu â chyrhaeddiad merched.

57 Dengys dadansoddiad o adroddiadau arolygu ar gyfer 2005-2007 bod cyrhaeddiad merched yn sylweddol well na bechgyn mewn ychydig dros 30% o ysgolion cynradd. Yn yr un cyfnod, mae adroddiadau arolygu ar gyfer ysgolion uwchradd yn dangos merched yn cael gwell canlyniadau na bechgyn mewn rhyw 85% o ysgolion.

58 Mae Graffiau 1-4 ar dudalennau 8-11 o’r adroddiad hwn yn dangos yr amrywiad mewn perfformiad bechgyn a merched dros amser. Maent hefyd yn dangos bod y bwlch rhwng lefelau cyrhaeddiad yn cynyddu wrth i ddisgyblion symud drwy’r cyfnodau allweddol. Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn dangos bod y bwlch mewn cyrhaeddiad yn fwy nodedig mewn Cymraeg a Saesneg nag mewn pynciau craidd eraill. Mae’r prif achosion am y bwlch rhyw wedi gwreiddio mewn medrau llythrennedd, yn enwedig ysgrifennu a darllen.

59 Yn aml mae disgyblion â medrau iaith gwan, yn enwedig mewn darllen ac ysgrifennu, yn methu trosglwyddo’n esmwyth o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd. Cânt anawsterau mynd at gwricwlwm sy’n cael ei yrru gan gynnwys yn bennaf ac sy’n seiliedig ar lythrennedd yn bennaf. Mae’r rhan fwyaf o dasgau y mae disgyblion yn eu gwneud yn seiliedig ar lythrennedd, ac ysgrifennu yw prif ddull disgyblion o gofnodi’u gwaith.

60 Hefyd, gall trefniant y diwrnod yn yr ysgol uwchradd, sy’n golygu newid athrawon a phynciau’n aml a gofynion niferus ar gyfer gwaith cartref a gwaith cwrs, fod yn her benodol i fechgyn sydd eisoes yn ei chael hi’n anodd ymdopi gyda darllen ac ysgrifennu.

61 Erbyn 14 oed, mae lleiafrif sylweddol iawn o fechgyn yn teimlo rhwystredigaeth a methiant cynyddol am nad ydynt yn cadw i fyny â llawer o’r gwaith yn yr ysgol. Gall hyn arwain at ddifaterwch, ac ar ei waethaf, ymddieithrio. Mae rhyw 80% o’r holl waharddiadau o ysgolion yn fechgyn. Daw problemau gyda phresenoldeb ac ymddygiad yn fwy amlwg o lawer wrth i ddisgyblion symud trwy gyfnodau addysg orfodol.

## Beth yw'r rhwystrau rhag codi cyrhaeddiad bechgyn?

62 Mae llawer o ysgolion yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth rhy gyfyngedig o strategaethau i ddarparu ar gyfer y gwahaniaethau rhwng merched a bechgyn o'r un oed o ran eu haeddfedrwydd a'u gallu cyffredinol fel dysgwyr. Mae adroddiad Estyn, *Newidiadau mewn addysgu a dysgu a hyrwyddir gan y rhaglen Anelu at Ragoriaeth*, yn tynnu sylw at y modd y mae'r rhaglen wedi arwain at welliannau sylweddol, ond dywed hefyd nad yw cynnydd bechgyn o allu uchel ac isel gystal ag y dylai fod.

63 Mae llai o ferched o lawer na bechgyn yn adweithio'n negyddol i addysgu gwaeth neu pan fydd diffyg momentwm a diddordeb yn y dysgu. At hynny, mae llawer o dystiolaeth bod rhai dulliau addysgu yn fwy tebygol o lwyddo gyda bechgyn. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith gydag elfen o gystadleuaeth, defnyddio TGCh yn rheolaidd, defnyddio nodau tymor byr yn gyson ac amrywiaeth o weithgareddau wedi'u hamseru sy'n cael eu hesbonio'n glir. Fodd bynnag, ychydig o ysgolion sy'n cynllunio amrywiaeth o strategaethau i ddarparu ar gyfer y gwahaniaethau rhwng merched a bechgyn o'r un oed.

64 Yn y sampl o fechgyn a merched a gafodd eu cyfweld, mae llawer o fechgyn yn gweld arholiadau fel blaenoriaethau ysgol 'pwysig'. Mae bechgyn a merched o'r farn bod bechgyn yn fwy tebygol na merched o beidio â chynhyrfu ac o fod yn hyderus yn eu gallu i wneud yn dda mewn profion. Er hyn, mae mwy o fechgyn na merched yn tangyflawni mewn arholiadau, a hynny'n bennaf gan nad ydynt wedi datblygu medrau adolygu da nac wedi cadw i fyny gyda'r gwaith.

65 Mae rhywfaint o ymchwil ddiweddar[3] yn awgrymu bod canfyddiad ymhlith disgyblion yn aml fod disgwyliadau rhyw yn dylanwadu llai ar athrawon benyw nag athrawon gwryw, ac mae bechgyn a merched yn teimlo bod athrawon yn trin bechgyn yn fwy llym na merched. Hefyd, mae disgyblion yn teimlo bod athrawon gwryw yn fwy beirniadol yn agored o fechgyn, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Mae rhywfaint o ymchwil yn awgrymu, lle mae gan athrawon ddisgwyliadau isel o botensial academaidd bechgyn, gall hyn gael yr effaith o ddod yn broffwydoliaeth hunangyflawnol a chyfrannu at eu cyflawniad isel.

---

[3] Myhill, D.A. & Jones, S. She Doesn't Shout at No Girls. Pupils' Perceptions of Gender Equality in the Classroom. *Cambridge Journal of Education*, 36, 1, 63-77.
Dyfynnwyd yn **Gender and Education: the evidence on pupils in England**
**Cyhoeddiad gan yr Adran Addysg a Sgiliau: Gorffennaf 2007**
**Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd**
Confident, Capable and Creative—Supporting Boys' Achievements: Rhagfyr 2007

## Beth yw'r strategaethau mewn ysgolion sy'n effeithiol o ran codi cyrhaeddiad bechgyn?

66 Dros y pum mlynedd diwethaf, mae llawer o ysgolion wedi bod yn flaenweithgar o ran bodloni heriau tangyflawniad disgyblion, codi cyrhaeddiad a mynd i'r afael ag ymddieithrio. I lawer o ysgolion, gyda bechgyn y mae'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn. Er bod enghreifftiau o arfer effeithiol a llwyddiannus, at ei gilydd, llwyddiant cymysg yn unig y mae eu hymdrechion wedi'u cyflawni. Mae ysgolion wedi cyflwyno amrywiaeth o fentrau i geisio mynd i'r afael â'r bwlch rhyw. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- cyflwyno dosbarthiadau un rhyw mewn Saesneg a Chymraeg, ac yn llai aml, mewn rhai pynciau eraill;
- prosiect ysgol gyfan lle'r oedd gofyniad ar bob adran i ymateb i gyfres o gwestiynau ar y bwlch rhyw ac i ddatblygu strategaethau i ymateb iddo;
- cyflwyno rhaglen alwedigaethol i Flwyddyn 6 er mwyn cynnig cwricwlwm mwy amrywiol;
- datblygu cynlluniau mentora sy'n cynnig cymorth agos i ddisgyblion ac sy'n cynnwys arweiniad ar arferion astudio a medrau adolygu; a
- monitro manwl a chymorth ychwanegol i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sydd ar y ffin o ran cael gradd dda mewn TGAU. Bechgyn yw llawer o'r rhain.

67 Caiff yr ymagweddau hyn ac ymagweddau eraill eu hystyried yn fanylach yn y bennod hon, a rhoddir enghreifftiau ohonynt yn yr astudiaethau achos yn yr Atodiad.

**Codi safonau llythrennedd**

68 Mae cynyddu nifer y bechgyn sy'n caffael medrau llythrennedd da yn ganolog i waith llawer o ysgolion sy'n llwyddo i wella canlyniadau bechgyn. Mae rhai ohonynt wedi canolbwyntio ar greu dosbarthiadau un rhyw mewn Saesneg a Chymraeg mamiaith. Cymysg fu'r canlyniadau, gyda rhai ysgolion yn troi'n ôl yn gyflym at ddosbarthiadau cymysg, tra bod ychydig o rai eraill wedi cael eu hannog gan ddatblygiadau ac wedi dyfalbarhau gyda dosbarthiadau un rhyw, yn enwedig ar gyfer y disgyblion hynny ar y ffin C/D mewn TGAU.

69 Dros y pum mlynedd diwethaf fwy neu lai, mae nifer gynyddol o ysgolion wedi gwneud gwella medrau llythrennedd disgyblion yn flaenoriaeth. Yn aml, mae hyn ar ffurf rhaglenni cymorth llythrennedd mewn ysgolion, sydd fel arfer wedi'u targedu at ddisgyblion nad ydynt yn cyflawni'r lefelau disgwyliedig mewn darllen ac ysgrifennu. Yn ddieithriad bron, mae mwyafrif y rhain yn fechgyn. Mae'r rhaglenni llythrennedd mwyaf llwyddiannus yn seiliedig ar ddiagnosis cychwynnol medrus o gryfderau a gwendidau disgyblion unigol. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cynnig dewis o gynnwys yn seiliedig ar ddiddordebau personol y disgyblion.

70 Mewn un ysgol, mae rhaglen llythrennedd ddwys ym Mlwyddyn 7 yn llwyddiannus yn gyson. Mae'r rhaglen hon yn targedu disgyblion sy'n mynd i mewn i'r ysgol gyda

sgôr Cwricwlwm Cenedlaethol lefel 3 neu lefel 4 isel mewn darllen a sillafu. Bechgyn yw mwyafrif y disgyblion hyn. Mae pob disgybl yn cyfranogi mewn tair gwers yr wythnos yn ogystal â chynllun darllen mewn parau gyda chyfoedion. Mae oed darllen disgyblion ar y rhaglen wedi gwella'n nodweddiadol o chwech i wyth mis, ac mewn sillafu, o 10 i 12 mis dros flwyddyn. Mae pob adran pwnc yn adolygu'r fenter ac yn adolygu cynnydd disgyblion yn flynyddol.

**Strategaethau addysgu a dysgu**

71 Mae yna ysgolion lle mae bechgyn a merched yn cyflawni'n dda, er y gall fod ychydig o fwlch o hyd rhwng eu cyrhaeddiad. Yn y rhain, mae'r cysylltiad rhwng canlyniadau da ar gyfer disgyblion ac addysgu da a rhagorol, wedi'i hen sefydlu. Mae athrawon da:

- yn esbonio diben y dysgu yn glir iawn ac maent yn eglur ynglŷn â'r hyn yw canlyniadau llwyddiannus;
- yn darparu cychwyn bywiog, cyfarwyddiadau manwl gywir a strwythur clir mewn gwersi;
- yn darparu gweithgareddau eang ar gyflymder da, gan gynnwys rhai sy'n gystadleuol, a rhai sy'n gofyn am drafodaeth grŵp a dosbarth;
- yn cynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd yn ogystal â gwaith y gellir ei wneud yn annibynnol;
- yn cynnwys disgyblion wrth wneud penderfyniadau a datrys problemau;
- yn meddwl yn greadigol ynghylch sut mae disgyblion yn cofnodi'u gwaith. Mae hyn yn cynnwys cydnabod nad ysgrifennu yw'r unig ffordd bob tro i ddangos dealltwriaeth;
- yn defnyddio TGCh o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer rhai aseiniadau fel y gall disgyblion ddarllen a thrafod testun yn electronig o'r dechrau i'r diwedd;
- yn pennu disgwyliadau uchel ynglŷn ag ymddygiad, ymdrech a chyflwyniad gwaith, ac yn eu cymhwyso'n gyson;
- yn helpu disgyblion i ddeall eu nodau dysgu, ac yn defnyddio meini prawf dealladwy sy'n cael eu rhannu i asesu pa mor dda y maent yn gwneud. Rhoddir adborth prydlon i ddisgyblion ar yr hyn y mae angen iddynt ei ddysgu nesaf; ac
- yn ymwybodol o'r cydbwysedd rhwng cynnwys, arddull a chyflwyniad, gan felly gochel rhag rhagfarnu heb yn wybod wrth farnu perfformiad bechgyn a merched, er enghraifft, mewn perthynas â thaclusrwydd a chyflwyniad.

72 Mae astudiaethau achos 3 a 4 yn Atodiad 1 yn rhoi enghreifftiau o ddulliau addysgu llwyddiannus. Bydd y dulliau hyn o fudd i fechgyn a merched.

**Dulliau ysgol gyfan**

73 Mae mentrau i godi lefelau cyrhaeddiad bechgyn yn fwyaf llwyddiannus pan fyddant yn rhan o raglen sy'n cynnwys yr ysgol gyfan. Mentrau nad ydynt wedi'u cyfyngu i ychydig bynciau ond yn hytrach a rennir yn eang ar draws yr ysgol, sy'n cael yr effaith fwyaf ar wella cyrhaeddiad bechgyn. Yn hanfodol, i'r mentrau hyn lwyddo, rhaid i staff mewn ysgolion fod yn argyhoeddedig eu bod yn gallu gwneud rhywbeth i godi cyrhaeddiad bechgyn. Mae ysgolion felly wedi datblygu dull ysgol gyfan yn seiliedig ar weledigaeth gydlynus a chyffredin ohonynt eu hunain fel cymunedau dysgu, a'r modd y gall disgyblion gyflawni'u potensial orau. Caiff y weledigaeth ei gweithredu ar draws pob maes gwaith allweddol, gan gynnwys dysgu ac addysgu, cwricwlwm ac asesu, darpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig, rheoli ymddygiad a phresenoldeb. Ymadrodd cyson a ddefnyddiwyd mewn ysgolion llwyddiannus yr ymwelwyd â hwy, neu y cysylltwyd â hwy fel arall yn ystod yr arolwg, oedd eu bod yn mynd ati i wneud dysgu a chyflawni'n 'cŵl' ar gyfer bechgyn.

74 Ar wahân i'r ffocws ar wella addysgu y soniwyd amdano'n barod ym mharagraff 73, mae ysgolion llwyddiannus yn rhannu rhai arferion cyffredin ychwanegol, beth bynnag yw'r amrywiadau o ran cyfrwng iaith, maint, trefniant a lleoliad. Mae'r arferion hyn yn cynnwys:

- cydnabod eu bod yn gallu gwneud rhywbeth ynghylch codi cyrhaeddiad bechgyn a datblygu dull ysgol gyfan;
- gwneud defnydd medrus o ddata i ganfod tangyflawni a/neu gyrhaeddiad gwan yn gyflym, ac ymyrryd yn unol â hynny;
- herio stereoteipiau a chysylltu â phatrymau ymddwyn gwryw cadarnhaol;
- canolbwyntio ar lythrennedd i wella mynediad i'r cwricwlwm. Gall hyn gynnwys strategaethau i gynyddu maint ac amrywiaeth gwaith llafar rhyngweithiol, gwneud darllen yn fwy apelgar i fechgyn a chysylltu'r ddau i feithrin diddordeb a hyder mewn ysgrifennu. Mae gwaith felly'n arbennig o effeithiol yn aml wrth godi lefelau cyrhaeddiad bechgyn sydd, o ychydig, yn methu cyrraedd y lefelau disgwyliedig yn genedlaethol ar gyfer eu hoed mewn iaith;
- adnewyddu dulliau dysgu'n barhaus;
- cynnwys bechgyn wrth gyd-drafod sut byddant yn dysgu ac wrth wneud penderfyniadau ar sail cyfnewid syniadau a barnau am y gwaith dan sylw; a
- darparu ffyrdd a modd i ddisgyblion fireinio a gwella'u medrau astudio, er enghraifft, trwy unedau medrau allweddol wedi'u cynllunio'n dda, clybiau gwaith cartref a chyrsiau preswyl, a thrwy ddarparu cynlluniau mentora. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys disgyblion hŷn a staff, ac mae rhai eraill yn cynnwys cynrychiolwyr o fyd diwydiant, masnach a'r gymuned ehangach i roi arweiniad a chymorth i ddisgyblion.

75 Mewn rhai ysgolion mae'r gwaith yn cael ei arwain, yn y tymor byr o leiaf, gan aelod neu aelodau dynodedig o staff sy'n gweithredu fel 'hyrwyddwyr'. Mae'r athrawon hyn

yn arwain yn y gwaith, yn cynnal ei broffil ac maent yn gyfrifol am gyfeirio a chydlynu ei weithrediad.

76 Mae ysgolion llwyddiannus yn cael deialog gyson gyda disgyblion a rhieni ynglŷn â'r sail resymegol dros y dulliau addysgu a ddefnyddir, ac maent yn barod i addasu mentrau a/neu eu hehangu'n unol â thystiolaeth am ba mor effeithiol y maent.

77 Er mwyn nodi blaenoriaethau a gosod targedau ar gyfer gwelliant, mae angen gwybodaeth fanwl gywir ar ysgolion. Mae ysgolion llwyddiannus yn casglu ac yn dadansoddi amrywiaeth eang o ddata ar gyrhaeddiad disgyblion a data arall, gan gynnwys gwybodaeth am bresenoldeb ac ymddygiad gwael, ac yn gwneud arolwg o ddisgyblion er mwyn cael eu barn. Mae staff yn casglu data dros nifer o flynyddoedd ac yn arfarnu'r dystiolaeth hon ar lefel disgyblion, lefel ysgol, lefel leol a lefel genedlaethol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae canfyddiadau ymchwil yn ychwanegu hefyd at ddealltwriaeth staff o faterion sy'n ymwneud ag agweddau a pherfformiad bechgyn. Mae'r wybodaeth hon yn erfyn pwerus i helpu staff i nodi anghenion penodol ac unigryw bechgyn yn eu hysgol, ac yn arbennig bechgyn y mae 'risg' iddynt ymddieithrio. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio'r wybodaeth wedyn i ddyfeisio strategaethau a gosod targedau ar gyfer gwella. Yn bwysig, mae targedau gwella ysgolion yn pwysleisio pwysigrwydd codi cyrhaeddiad bechgyn heb ostwng cyrhaeddiad merched. Mae staff yn monitro, ac o dro i dro yn adolygu'r strategaethau hyn er mwyn mesur a sicrhau eu heffeithiolrwydd.

78 Mae astudiaethau achos 1 a 4 yn Atodiad 1 yn rhoi enghreifftiau o ddulliau llwyddiannus ar lefel ysgol gyfan.

**Defnyddio pŵer cymhellol technoleg gwybodaeth a chyfathrebu**

79 Mae ymchwil wedi pennu'n glir yr effaith gymhellol y mae technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn ei chael ar fechgyn[4]. Mae natur ryngweithiol llawer o dechnolegau newydd yn helpu creu amgylcheddau dysgu lle gall bechgyn ddysgu trwy wneud. Cânt adborth uniongyrchol ac maent yn adeiladu gwybodaeth newydd yn barhaus i wella'u dealltwriaeth. Mae'r dull hwn yn unol hefyd â'r symudiad mewn arfer tuag at ddulliau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, sy'n annog bechgyn i gyfranogi'n fwy gweithgar yn y broses ddysgu, yn hytrach na bod yn dderbynwyr goddefol gwybodaeth.

80 Mae astudiaethau achos 1 a 7 yn rhoi enghreifftiau o ddulliau llwyddiannus o ddefnyddio TGCh.

[4] Younger, M., Warrington, M. gyda Gray, J., Rudduck, J., McLellan, R., Bearne, E., Kershner, R. & Bricheno, P. (2005). *Raising Boys' Achievement*, RR. 636, Yr Adran Addysg a Sgiliau.
Dyfynnwyd yn **Gender and Education: the evidence on pupils in England**

## Sut mae awdurdodau lleol yn ceisio gwella cyrhaeddiad bechgyn?

81 Er bod awdurdodau lleol ledled Cymru wedi cydnabod y bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched yn eu hysgolion, ychydig ohonynt sydd â strategaeth benodol i fynd i'r afael â chyrhaeddiad bechgyn a merched fel blaenoriaeth ynddi hi ei hun. Fel arfer, haenen o waith arall, fel strategaethau llythrennedd a rhifedd, yw codi cyrhaeddiad bechgyn.

82 Mae awdurdodau lleol yn darparu ystod eang o ddata i ysgolion i'w helpu i ddadansoddi perfformiad. Yn ogystal, mae ymgynghorwyr yn ymweld ag ysgolion yn rheolaidd i adolygu perfformiad, ac mae hyn yn cynnwys lefelau cyrhaeddiad priodol bechgyn a merched. Fodd bynnag, er bod enghreifftiau unigol o lwyddiant, mae uwch reolwyr a'u timau o ymgynghorwyr arbenigol wedi bod yn llai llwyddiannus o ran datblygu strategaethau hirdymor ar hyd yr awdurdod i helpu bechgyn gyflawni'u potensial. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd ehangach o enghreifftiau o ymdrechion effeithiol gan ysgolion unigol i godi lefelau cyrhaeddiad bechgyn.

83 Mae ysgolion mewn rhai awdurdodau lleol yn cael cymorth ymgynghorol ar gyfer ysgolion gan dîm llythrennedd arbenigol yr awdurdod. Fel arfer mae'r cymorth hwn yn cynnwys ffocws ar godi medrau llythrennedd bechgyn. Mae gwaith llwyddiannus wedi cynnwys ffocws cryf ar weithgareddau drama a chwarae rhan, am fod y gweithgareddau hyn yn llwyddo yn aml i ennyn diddordeb a sylw bechgyn ac yn eu galluogi i ddefnyddio'u medrau siarad a gwrando. Gall y gweithgareddau hyn gyfrannu hefyd at wella medrau darllen ac ysgrifennu bechgyn. Mewn un awdurdod lleol o leiaf, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y rhaglenni hyn wedi cyfrannu at welliannau yng nghanlyniadau asesiadau Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 i fechgyn.

84 Mae timau medrau sylfaenol o fewn gwasanaethau ymgynghorol mewn rhai awdurdodau lleol wedi addasu rhaglenni darllen yn llwyddiannus yng nghyfnod allweddol 3 ar gyfer gwella darllen a chymell bechgyn. Datblygir y strategaethau trwy destunau sydd ag apêl eang i fechgyn, fel straeon antur cyffrous a gweithiau ffeithiol. Hefyd, mae cymorth wedi'i dargedu'n ofalus i'r disgyblion hynny, bechgyn yn bennaf, y mae eu hoedrannau darllen y tu ôl i'w hoedran cronolegol. Mae tystiolaeth glir bod y gwaith hwn wedi gwella hyder a chymhelliant bechgyn yn ogystal â chodi'u safonau mewn darllen.

85 Mae cyllid medrau sylfaenol yn cael ei ddefnyddio i ddarparu hyfforddiant i athrawon uwchradd a chynorthwywyr cymorth dysgu mewn rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i alluogi grwpiau penodol o ddisgyblion sy'n mynd i mewn i Flwyddyn 7 'ddal i fyny', yn enwedig mewn darllen. Wrth gael eu hailasesu ar ddiwedd Blwyddyn 7, dangosodd y rhan fwyaf o'r disgyblion hyn enillion yn eu hoedrannau darllen. Mae astudiaethau achos 2, 6 ac 8 yn yr atodiad yn rhoi enghreifftiau o ddulliau llwyddiannus.

86 Mae rhai ysgolion uwchradd wedi cael cymorth da i ddefnyddio grantiau i ehangu'u cwricwlwm cyfnod allweddol 4. Mae'r grantiau hyn wedi ariannu cyrsiau galwedigaethol newydd, sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion, bechgyn eto'n bennaf, a oedd yn flaenorol yn dangos cymhelliant cyfyngedig yn yr ysgol.

## Herio stereoteipiau

87 Er bod mwyafrif cadarn o fechgyn yn cydnabod pwysigrwydd llwyddiant academaidd, mewn rhai achosion mae diwylliant negyddol sydd wedi sefydlu'n gryf yn gweithredu fel rhwystr pwerus i waith caled a brwdfrydedd. Yn aml, mae bechgyn yn teimlo eu bod yn colli hygrededd ymhlith eu cyfoedion os ydynt yn gweithio'n galed neu os bernir eu bod yn llwyddiannus. Gall cynlluniau mentora fod yn arbennig o ddefnyddiol i fynd i'r afael â'r diffyg gwerth sy'n cael ei roi ar lwyddiant academaidd mewn diwylliant bechgyn. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd yn gysylltiedig â phobl o du allan i amgylchedd yr ysgol, er enghraifft, pobl fusnes leol neu ddynion neu ferched o'r byd chwaraeon, y gall bechgyn uniaethu'n well gyda nhw'n aml.

88 Mae ymchwil ddiweddar ar gynlluniau mentora gyda bechgyn wedi teimlo eu bod ar eu mwyaf effeithiol pan oedd y targedau a osodwyd yn realistig ac yn heriol, wedi'u seilio ar ddisgwyliadau uchel a dadansoddiad manwl o ddata gwerth ychwanegol wedi'i roi mewn cyd-destun ar lefel yr unigolyn. Fel rhan o hyn, mae angen amser a chymorth ar athrawon yn gyson ac yn aml i osod targedau ar gyfer unigolion yn eu dosbarthiadau, ac i gyfranogi mewn deialog proffesiynol am ddysgu ar lefel y disgybl unigol. Mae angen i'r mentora sy'n mynd law yn llaw â'r cynlluniau hyn gael ei ddatblygu o fewn ethos sy'n derbyn y bydd mentoriaid yn cyfryngu ac yn cyd-drafod gydag athrawon pwnc ar ran 'eu' myfyriwr, ac o ganlyniad yn herio 'eu' myfyriwr i gyflawni mwy. Dylai'r mentor gynnig strategaethau, cyngor ac anogaeth, ond yn hollbwysig, dylent hefyd fod yn bendant ac yn awdurdodol, er mwyn rhoi cymorth effeithiol i fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio, ynghyd â disgwyliadau cadarn.

89 Mewn nifer o ysgolion, yn enwedig mewn ysgolion cynradd ond nid ysgolion cynradd yn unig o bell ffordd, mae'r defnydd o'r dull chwarae rhan gydag artistiaid, beirdd a cherddorion preswyl wedi profi'n gadarn ei fod yn herio stereoteipio a rhagfarnau traddodiadol yn effeithiol. Gall hefyd ddarparu modd i ddisgyblion sydd wedi ymddieithrio i ymwneud â gwaith sy'n eu diddori ac yn eu cymell. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd y gwaith yn arwain at gyflwyno, cynhyrchu neu arddangos i gynulleidfaoedd ehangach.

## Datblygiadau cyfredol a all gyfrannu at gau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a chyrhaeddiad merched

90 Ar hyn o bryd, mae nifer o ddatblygiadau cwricwlwm ledled Cymru sydd â'r potensial ynddynt i helpu cau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched. Mae'r datblygiadau hyn yn cynnwys y Cyfnod Sylfaen, y rhaglen Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion (RHAGORI), y Fenter Llwybrau Dysgu 14-19, a chymhwyster Bagloriaeth Cymru. Er ei bod yn gyfnod cynnar ar y datblygiadau hyn o hyd, mae gan bob un elfennau sy'n debygol o apelio at fechgyn. Mae'r potensial ynddynt i wella cyrhaeddiad bechgyn a chyfrannu at welliannau mewn canlyniadau i ferched ar yr un pryd.

91 Mae'r Cyfnod Sylfaen yn darparu cwricwlwm sy'n ceisio cynnig cyfleoedd i bob plentyn 3-7 oed i ddysgu trwy chwarae strwythuredig a dysgu ymarferol. Dylai'r ffocws hwn ar ddull sydd wedi'i seilio'n fwy ar weithgareddau helpu i gymell bechgyn yn well. Nod y cwricwlwm hefyd yw datblygu medrau plant yn y saith maes dysgu, ac mae ynddo ffocws cryf ar fedrau cyfathrebu a medrau personol a chymdeithasol. Bydd mwy o gyfleoedd i siarad a gwrando, a llai o debygolrwydd o symud plant ymlaen i weithgareddau darllen ac ysgrifennu ffurfiol a gwaith rhif pensil a phapur ar y bwrdd cyn pryd. Dylai'r dull hwn gynnig mwy o gyfleoedd ac amser i blant, yn enwedig bechgyn, i ddatblygu medrau iaith da nag ar hyn o bryd. Dywed adroddiad Estyn, <u>Cynlluniau Peilot y Cyfnod Sylfaen</u> (Awst 2007), "Mewn nifer o leoliadau, yn y sector a gynhelir ac yn y sector na chynhelir, mae staff yn adrodd bod gan fechgyn lawer mwy o ddiddordeb yn ei gweithgareddau, yn enwedig os yw'r gweithgareddau yn yr awyr agored".

92 Nod y fenter Llwybrau Dysgu 14-19 yw paratoi 95% o bobl ifanc ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am fedrau uchel neu addysg uwch erbyn eu bod yn 25 oed. Mae'r targed heriol hwn yn cydnabod bod angen gwneud llawer iawn mwy i ddenu diddordeb y bobl ifanc hynny sy'n gadael yr ysgol ar y cyfle cyntaf posibl ar hyn o bryd, ac nad ydynt yn manteisio ar unrhyw gyfleoedd hyfforddi mewn addysg bellach. Bechgyn yw mwyafrif y bobl ifanc hyn. Mae'r fenter yn cydnabod hefyd fod angen gwneud llawer o'r gwaith hwn cyn 16 oed, yn enwedig pan fydd pobl ifanc yn yr ystod oed 14-16. Mae'r fenter yn ceisio cynnwys mwy o bobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant trwy gynnig mwy o ddewisiadau amgen iddynt y tu hwnt i'r llwybrau traddodiadol TGAU a Safon Uwch. Bydd y rhain yn cyfuno astudiaethau galwedigaethol ac astudiaethau pynciau cyffredinol gyda phrofiad cymunedol a phrofiad sy'n canolbwyntio ar waith. Dylai mwy o ddewis cymwysterau a chredydau alluogi pobl ifanc i gyd-drafod yn unigol cyflymder a chyfeiriad eu dysgu. Gyda mwy o ddewis, gall pob dysgwr gael llwybr unigol sy'n addas i'w hanghenion a'u dyheadau. Y bwriad yw y bydd dysgwyr yn dewis opsiynau, gyda chymorth ac arweiniad, sy'n briodol i'w galluoedd a'u harddulliau dysgu. Bydd pob dysgwr yn elwa hefyd o gymorth hyfforddwr dysgu, yn ogystal â mynediad i gymorth ac arweiniad personol arall, fel cyngor ar yrfa. Mae'r elfennau hyn yn debygol o fod yn arbennig o ddefnyddiol i gynorthwyo bechgyn.

93 Dywed Estyn, yn ei bapur trafod ar Drawsnewid Ysgolion, (Mawrth 2007), "Ar hyn o bryd, mae mwy o statws i'r dysgu sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth na dysgu sy'n digwydd mewn lleoliad gwaith. Mae'r farn hon yn cyfyngu cyfleoedd i bobl ifanc

wneud dewisiadau mwy cytbwys i ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau mewn ystod ehangach o gyd-destunau ymarferol, y gallai rhai ohonynt fod y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae tystiolaeth sylweddol bod llawer o ddysgwyr, yn enwedig bechgyn, yn dod yn fwy cadarnhaol am eu gwaith pan fyddant yn cael cynnig y mathau hyn o ddewisiadau." Fodd bynnag, dywed y papur hefyd, "Bydd angen gwneud newidiadau sylfaenol i'r rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19, a bydd angen i ysgolion, colegau, awdurdodau addysg lleol ac eraill fod yn llawer mwy hyblyg. Bydd llwyddiant yn dibynnu'n bennaf ar barodrwydd darparwyr i gydweithio yn fwy effeithiol nag y maent ar hyn o bryd."

94 Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddatblygu medrau allweddol trwy weithio gyda'r gymuned ac mewn diwydiant, a dysgu trwy brofiadau uniongyrchol. Mae'r cwrs yn cynnwys cymorth tiwtorial agos, gan ddefnyddio targedau a nodau tymor byr. Mae bechgyn yn benodol yn ymateb yn dda i dargedau felly. Mae llawer o elfennau ym Magloriaeth Cymru sy'n gyffredin i'r fenter Llwybrau Dysgu. Mae'n rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau allweddol, addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, cyfranogi mewn gwaith y tu allan i'r amgylchedd ysgol/coleg, a gwaith prosiect unigol. Mae craidd dysgu i'r cymhwyster, a phwyslais cryf ar ddarparu cymorth tiwtorial personol. Dylai hyn alluogi'r lefel o fonitro manwl, ymyriad, cymorth a her y profwyd eu bod yn elfen allweddol mewn codi cyrhaeddiad bechgyn ac y cyfeirir atynt mewn nifer o'r astudiaethau agos yn Atodiad 1.

95 Yn ychwanegol at y datblygiadau polisi hirdymor hyn, ym mis Mai 2006 cyflwynwyd strategaeth ymyrryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, o'r enw Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion (RHAGORI). Mae'r strategaeth yn rhyddhau cyllid i dargedu disgyblion o dan anfantais ac i godi lefel eu perfformiad. Dewiswyd ysgolion i gymryd rhan ar y sail bod hawl gan 20% neu fwy o'u ddisgyblion i gael prydau ysgol am ddim. Mewn llawer o'r ysgolion hyn y mae cyrhaeddiad bechgyn ar ei wannaf. Mae llawer o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd sy'n cael y grant wedi canolbwyntio ar godi safonau llythrennedd a rhifedd. Mae rhai ysgolion yn defnyddio cyllid RHAGORI i gynorthwyo bechgyn yn benodol.

96 Canfu arfarniad diweddar gan Estyn bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan brosiectau RHAGORI. Mae rhai o'r prosiectau cyfredol sy'n arbennig o ddefnyddiol i fechgyn yn cynnwys:

- penodi hyfforddwyr dysgu ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4 sydd wedi ymddieithrio;
- datblygu pecynnau cymorth meddalwedd ar gyfer cyflawnwyr isel ym Mlynyddoedd 7-8;
- prynu adnoddau, fel taflunwyr aml-gyfrwng, rhaglenni mathemateg rhyngweithiol; a
- bwrdd gwyn rhyngweithiol ar gyfer gwaith mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 3.

97 Ym mis Gorffennaf 2007, cyhoeddodd Estyn adroddiad interim ar effaith cyllid RHAGORI. Mae canfyddiadau’r adroddiad yn cynnwys y canlynol:

- er ei bod yn rhy gynnar i farnu effaith prosiectau ar gyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i’r cyfleoedd sy’n cael eu cynnig iddynt;

- yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau’r rhan fwyaf o agweddau ar eu gwaith newydd. Maent yn gwybod pa mor dda y maent yn gwneud ac yn gwybod sut y gallant wella;

- yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae llawer o’r prosiectau’n ymwneud â gwella presenoldeb, agweddau, ymddygiad a llythrennedd disgyblion. Yn ogystal, mae’r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion brofi cwricwlwm ehangach neu ystod fwy o gymwysterau; ac

- yn y rhan fwyaf o ysgolion mae disgyblion yn cael cymorth da. Mewn un ysgol, mae gan bob disgybl gynllun ar gyfer eu dyfodol. Mewn ysgol arall, mae bechgyn yn gallu disgrifio mantais strategaethau addysgu a dysgu newydd.

## Atodiad: Astudiaethau achos o arfer lwyddiannus

### Strategaethau ysgol i wella cyflawniad a chyrhaeddiad bechgyn

**Astudiaeth achos 1**

**Cyd-destun:**
Ysgol uwchradd fawr 11-18, mewn tref o faint canolig, sydd â phlant o gefndir economaidd cymdeithasol cymysg, a lle mae gan 11% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim.

**Strategaeth:**
Datblygwyd menter gan yr uwch dîm rheoli lle gofynnwyd i bob adran, "Cau'r bwlch rhyw: Beth ydych chi'n ei wneud yn eich adran chi?"

**Gweithredu:**
Ymatebodd adrannau drwy amlinellu'r modd y gallai athrawon ganolbwyntio ar newid strategaethau addysgu a dysgu a chynnwys y cwricwlwm. O ganlyniad, maent bellach yn canolbwyntio ar weithgareddau dysgu sy'n fwy cystadleuol o ran natur ac a welir fel "hwyl". Mae mwy o ddefnydd o TGCh. Mae trefn yr ystafell ddosbarth yn pwysleisio hyblygrwydd ac yn galluogi disgyblion i symud o amgylch y dosbarth. Ad-drefnwyd gwaith cwrs i gynnwys gweithgareddau sydd wedi'u cyfyngu'n fwy gan amser yn y gwersi. Ailstrwythurwyd y cwricwlwm i ganolbwyntio mwy ar ddatblygu medrau a diddordebau. Mae mwy o le i ddisgyblion ddewis cynnwys sy'n apelio at eu diddordebau. Mae mwy o bwyslais o lawer ar weithgareddau fel trafodaethau dosbarth a chwarae rhan. Mae'r cynllunio wedi'i strwythuro mwy o amgylch unedau strwythuredig ac asesu sy'n canolbwyntio ar sut i gyrraedd targedau tymor byr.

**Canlyniad:**
Rhwng 2003 a 2006, mae'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched yn yr ysgol hon wedi lleihau. Er enghraifft, gostyngodd o 10 i 4 pwynt canran yn y dangosydd pwnc craidd (DPC) ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, ac o 12 i 3 phwynt yng nghanran y disgyblion a enillodd o leiaf bump TGAU graddau A*-C.

**Astudiaeth achos 2**

**Cyd-destun:**
Ysgol uwchradd fawr 11-18, mewn tref fach gyda disgyblion o ardaloedd breintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mae hawl gan 4% o'r disgyblion i gael prydau ysgol am ddim.

**Strategaeth:**
Dros nifer o flynyddoedd, roedd athrawon wedi mabwysiadu ystod o fentrau i fynd i'r afael â'r bwlch rhyw, gan gynnwys grwpiau addysgu un rhyw a threfnu seddi yn y dosbarth lle mae bechgyn yn eistedd nesaf at ferched. Fodd bynnag, daethant i'r casgliad mai canlyniadau cymysg iawn a gafwyd ar y gorau. Ar ôl trafodaeth drylwyr o strategaethau, penderfynodd rheolwyr ac athrawon fod angen dull newydd.

**Gweithredu:**
Cyflwynodd yr ysgol raglen llythrennedd ddwys ym Mlwyddyn 7 i dargedu disgyblion sy'n mynd i mewn i'r ysgol gyda sgôr Cwricwlwm Cenedlaethol lefel 3 neu lefel 4 isel mewn darllen a sillafu. Bechgyn yw mwyafrif y disgyblion hyn. Mae pob disgybl yn cyfranogi mewn tair gwers yr wythnos yn ogystal â chynllun darllen mewn parau gyda chyfoedion.

**Canlyniad:**
Mae oed darllen disgyblion ar y rhaglen wedi gwella'n nodweddiadol o chwech i wyth mis, ac mewn sillafu, o 10 i 12 mis dros flwyddyn. Mae pob adran pwnc yn adolygu'r fenter ac yn adolygu cynnydd disgyblion yn flynyddol.

**Astudiaeth achos 3**

**Cyd-destun:**
Ysgol uwchradd fawr 11-18, yn gwasanaethu nifer o drefi bach. Mae gan yr ysgol ddalgylch cymharol freintiedig yn economaidd-gymdeithasol; mae hawl gan 8% o'r disgyblion i gael prydau ysgol am ddim.

**Strategaeth:**
Roedd rheolwyr ac athrawon yn teimlo y gallent barhau i wneud mwy i wrthsefyll y materion cymdeithasol, diwylliannol a'r materion grŵp cyfoedion yr oeddent yn credu oedd yn cael effaith niweidiol ar ymdrech a chyfranogiad bechgyn mewn gwersi. Roedd uwch reolwyr yn teimlo bod rhywfaint o anghydweddiad rhwng arddulliau addysgu ac arddulliau dysgu, ac nad yw llawer o athrawon yn ystyried arddulliau dysgu gwahanol bechgyn a merched. Mae hyn wedi arwain at strategaethau amrywiol i leihau'r bwlch rhwng bechgyn a merched, fel treialu rhai dosbarthiadau un rhyw.

**Gweithredu:**
Barnodd adroddiad arolygu diweddar fod yr ysgol yn gwneud defnydd da iawn o ddata ar ganlyniadau disgyblion i gyfrannu at y cynllunio. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o ddata i gyfrannu at gynllunio arddulliau addysgu a dysgu. Mewn un fenter fe wnaeth yr adran Saesneg gyflwyno grwpiau un rhyw ar gyfer setiau 2 a 3. Yn y grwpiau bechgyn, mae mwy o ddeunyddiau ffuglen a deunyddiau cyfryngau yn cael eu defnyddio i'w cymell. Defnyddiodd yr athrawon ddulliau yr oeddent yn teimlo oedd yn addas at arddulliau dysgu bechgyn, gan gynnwys:

- tasgau byr, sydyn;
- cymorth trwy ddefnyddio fframiau ysgrifennu;
- deunydd fideo; a
- rhaglenni wedi'u diffinio'n glir i gefnogi trefnu ac adolygu.

**Canlyniad:**
Mae athrawon yn adrodd y cafwyd gwelliant sylweddol i'r bechgyn a'r merched mewn gwaith llafar. Dangosodd canlyniadau 2006, yn y grwpiau addysgu un rhyw, bod y bechgyn wedi perfformio ychydig bach yn well na'r merched.

**Astudiaeth achos 4**

**Cyd-destun:**
Ysgol gynradd maint canolig yn gwasanaethu dalgylch economaidd-gymdeithasol gymysg. Mae hawl gan 13% o'r disgyblion i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r adroddiad arolygu diweddaraf ar gyfer yr ysgol hon yn cynnwys y sylw, "Mae bechgyn a merched yn cyflawni'n dda mewn asesiadau'r CC."

**Strategaeth:**
Mae'r ysgol yn teimlo bod ei llwyddiant yn deillio o ddatblygu dulliau ysgol gyfan effeithiol o addysgu a dysgu.

**Gweithredu:**
Mae rheolwyr ac athrawon yn teimlo mai'r ethos cyffredinol yn hytrach nag unrhyw strategaeth sydd wedi cyfrannu at lwyddiant yr ysgol. Mae'r addysgu sydd wedi bod yn effeithiol wrth helpu disgyblion i gyflawni'n dda yn seiliedig ar:

- nodi arddulliau dysgu penodol a'u defnyddio i ysgogi medrau meddwl disgyblion a'u cymhelliant i ddysgu;
- dull strwythuredig o addysgu medrau llythrennedd cynnar;
- system asesu a reolir yn dda sy'n galluogi athrawon i wybod yn union ble mae disgyblion o ran cynnydd tuag at dargedau penodol; a
- gweithredu disgyblaeth yn gyson, a pholisïau ymddygiad cadarnhaol drwy'r ysgol gyfan ac mewn gwersi unigol.

**Canlyniad:**
Mae'r adroddiad arolygu diweddaraf ar gyfer yr ysgol yn dweud, "Mae'r ysgol wedi cael cryn lwyddiant wrth godi cyflawniad bechgyn."

**Astudiaeth achos 5**

**Cyd-destun:**
Ysgol gynradd fawr yn gwasanaethu mewn tref arfordirol gyda dalgylch sy'n rhannol dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae hawl gan 26% o'r disgyblion i gael prydau ysgol am ddim. Nodwyd gwella cymhelliant bechgyn i ddysgu fel blaenoriaeth gan yr ysgol.

**Strategaeth:**
Yn 2002, fe wnaeth rheolwyr ac athrawon mewn ysgol gynradd ddatblygu menter, y Junior Artisan Club, ac un o'i brif amcanion oedd gwella agweddau bechgyn at ddysgu. Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn astudio tair haen alwedigaethol. Mae'r haenau hyn yn cynnwys coginio a hylendid sylfaenol, gwelliannau amgylcheddol a dylunio gwaith metel. Mae'r cwrs dylunio'n gweithredu oddi ar y safle men cydweithrediad â chwmni hyfforddi.

**Gweithredu:**
Mae cynllunio a chyflwyno'r rhaglen yn ofalus yn osgoi stereoteipio yn ôl rhyw gan fod yr holl ddisgyblion yn cymryd rhan yn yr holl weithgareddau ym mhob haen alwedigaethol. Maent yn gweithio mewn grwpiau rhyw cymysg hefyd. Mae'r rhaglen yn cyfrannu at ddatblygu medrau allweddol.

**Canlyniad:**
Mae'r disgyblion yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth. Mae staff o'r farn mai un o'r canlyniadau fu gwelliant yn agweddau a chymhelliant bechgyn. Er mai ychydig o newid a fu yn lefelau perfformiad cyfnod allweddol 2 mewn pynciau craidd, mae'n rhy gynnar i ddweud a fydd yna welliannau hirdymor mewn perfformiad bechgyn.

**Astudiaeth achos 6**

**Cyd-destun:**
Ysgol uwchradd fawr 11-18 sy'n gwasanaethu dalgylch economaidd-gymdeithasol cymysg. Mae hawl gan 17% o ddisgyblion i gael prydau ysgol am ddim. Dim ond bechgyn sydd gan yr ysgol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Mae'n gweithio'n agos gyda'r ysgol gyfagos i ferched yn y dref i ddarparu chweched dosbarth rhyw cymysg.

**Strategaeth:**
Datblygwyd rhaglen systematig gan reolwyr ac athrawon ar gyfer addysgu, dysgu a chodi cyflawniad. Mae'n seiliedig ar gyfres o fesurau cydberthnasol, gan gynnwys newid y cwricwlwm a chefnogi unigolion a grwpiau o ddisgyblion wedi'u targedu.

**Gweithredu:**

- Rhaglen medrau allweddol cyfnod allweddol 3 gyda'r nod o helpu gymaint o ddisgyblion ag y bo modd i ennill dyfarniadau Lefel 1 erbyn diwedd Blwyddyn 9. Yn 2005, cyflawnodd dros 50% o fechgyn hyn ym mhob un o'r cymwysterau medrau allweddol craidd, sef cyfathrebu, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chymhwyso rhif.

- Newid y cwricwlwm i gynnwys cyrsiau galwedigaethol a rhaglen cymorth dysgu yng nghyfnod allweddol 4, gan gyfuno ymdrechion yr adrannau anghenion arbennig, Saesneg a mathemateg.

- Cynlluniau cymorth llythrennedd a chymorth rheoli ymddygiad.

- Cynllun mentora ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4 wedi'i adeiladu o amgylch adolygiadau cyson o dargedau a gytunwyd ar gyfer gwella, ochr yn ochr ag ystod o gymorth astudio, gan gynnwys clybiau gwaith cartref a chwrs preswyl.

**Canlyniad:**
Cynnydd dramatig mewn cyrhaeddiad bechgyn yn y blynyddoedd diweddar. Ym 1999, enillodd 24% o fechgyn bump neu fwy o raddau A*-C. Erbyn 2005, roedd hyn wedi cynyddu i 71%; 68% ydoedd yn 2006.

**Astudiaeth achos 7**

**Cyd-destun:**
Ysgol uwchradd fawr 11-18 sy'n gwasanaethu dalgylch economaidd-gymdeithasol cymysg. Mae hawl gan 11% o ddisgyblion i gael prydau ysgol am ddim.

**Strategaeth:**
Datblygodd yr ysgol gyfres o fesurau i wella cyrhaeddiad bechgyn mewn TGAU. Sgil-gynnyrch sefydlu 'Clwb Pasio' oedd hwn gyda'r nod o gynnig cyngor a chymorth i ddisgyblion yr oedd eu graddau TGAU yn debygol o fod ar y ffin C/D. Bechgyn oedd rhan fwyaf y disgyblion hyn. Pennodd rheolwyr y nodweddion mewn dysgu sy'n apelio at fechgyn a gofynnwyd i adrannau ymateb. Y nodweddion mewn dysgu a nodwyd ganddynt oedd:

- natur gystadleuol;
- bod yn anturus gyda syniadau;
- gwell ganddynt dasgau sy'n cynnig tasgau profiad, gofodol a thechnegol;
- ymateb yn dda i dasgau sy'n cynnwys defnyddio TGCh;
- gallu i weithio'n gyflym ac ysgrifennu'n gryno;
- gwell ganddynt dasgau darllen ag ysgrifennu ffeithiol, addysgiadol;
- mwynhau trafodaeth agored;
- arddangos medrau arwain mewn siarad a gwrando;
- adweithio'n dda i nodau tymor byr; a
- bod yn fwy amlwg hyderus.

**Gweithredu:**
Adolygu ac ail-ddylunio cynlluniau gwaith i ystyried y nodweddion hyn yn well.

**Canlyniad:**
Mae'r ysgol yn argyhoeddedig bod y mesurau y mae wedi'u gweithredu wedi rhoi llawer mwy o le i'r disgyblion dan sylw i lwyddo. Yn bwysig, mae wedi gwella cyrhaeddiad bechgyn heb ostwng canlyniadau'r merched. Fe wnaeth canran y bechgyn sy'n ennill 5 neu fwy TGAU graddau A*-C godi o 54% yn 2004 i 67% yn 2005 ac i 68% yn 2006.

## Geirfa

**Cyflawniad:** pa mor dda mae dysgwyr yn gwneud mewn perthynas â'u gallu ac yn unol â'r cynnydd y disgwylir iddynt wneud.

**Safon Uwch:** Tystysgrif Addysg Gyffredinol ar Safon Uwch

**Cyrhaeddiad:** mesur o ba mor dda mae dysgwyr yn gwneud mewn asesiadau allanol cenedlaethol ac yn y cymwysterau neu'r credydau maent yn eu hennill.

**Y Rhaglen Anelu at Ragoriaeth:** menter gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r trosglwyddo a lefelau'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud pan fyddant yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

**Gwaelodlin:** yr asesiad o blant mewn medrau iaith, medrau mathemategol a medrau personol a chymdeithasol pan fyddant yn dechrau addysg amser llawn mewn dosbarthiadau Derbyn neu ddosbarthiadau Blwyddyn 1. Mae'r wyth elfen yn cynnwys asesiadau o gydrannau di-eiriau, llafaredd, rhif, datblygiad personol a chymdeithasol a darllen ac ysgrifennu.

**Marc Safon Sgiliau Sylfaenol:** dyfarniad yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol i ysgolion sy'n darparu tystiolaeth eu bod yn bodloni manylebau mewn deg o elfennau diffiniedig ar gyfer addysgu a datblygu medrau allweddol.

**Pynciau craidd:** mae pedwar pwnc craidd yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Y rhain yw Saesneg, Cymraeg (mamiaith), mathemateg a gwyddoniaeth.

**Dangosydd pwnc craidd (DPC):** canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel y DPI a ddisgwylir ganddynt mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg fel mamiaith.

**Asesiadau diwedd cyfnodau allweddol:** yr asesiad o gyrhaeddiad plant yn 7, 11 a 14 oed yn erbyn meini prawf asesu a lefelau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

**Cyfnod Sylfaen:** menter Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cwmpasu'r blynyddoedd cynnar a chyfnod allweddol 1 (plant rhwng tair a saith oed). O fis Medi 2004, mae 42 o leoliadau yn rhoi hwn ar brawf. Nod y fenter yw darparu cwricwlwm eang, cytbwys ac amrywiol mewn saith o feysydd dysgu er mwyn bodloni anghenion datblygol gwahanol plant ifanc.

**Prydau Ysgol am Ddim (PYDd):** defnyddir cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim fel un o'r prif ddangosyddion lefelau economaidd-gymdeithasol.

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch (TGAU):** mae'r mwyafrif o bobl ifanc 16 oed yn ennill y cymhwyster hwn.

**Medrau allweddol:** Y medrau allweddol (ar gyfer disgyblion 16 oed ac iau) yw:

- siarad;
- gwrando;
- darllen;
- ysgrifennu;
- defnyddio rhifau (rhifedd); a
- defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Y **medrau allweddol ehangach** yw:

- datrys problemau;
- gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hun; a
- gweithio gydag eraill.

**Cymwysterau medrau allweddol:** ar gyfer dysgwyr ôl-16

- cyfathrebu;
- cymhwyso rhif; a
- defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae'r medrau allweddol hyn, yn ogystal â'r medrau allweddol ehangach, ar gael o lefel mynediad i lefel 3. Wrth i ddysgwyr symud ymlaen drwy'r lefelau, maent yn symud o dasgau syml i dasgau mwy cymhleth. Hefyd, mae'n rhaid iddynt ddangos gallu cynyddol i ddefnyddio medrau lefel uwch fel dadansoddi, arfarnu a chyfiawnhau.

**Cyfnod Allweddol:** Mae 'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn rhannu cyfnod addysg orfodol yn bedwar cyfnod allweddol:

- cyfnod allweddol 1 i ddisgyblion 5 i 7 oed;
- cyfnod allweddol 2 i ddisgyblion 7 i 11 oed;
- cyfnod allweddol 3 i ddisgyblion 11 i 14 oed;
- cyfnod allweddol 4 i ddisgyblion 14 i 16 oed.

**Hyfforddwyr dysgu:** oedolyn sy'n darparu cymorth i ddysgwyr 14 i 19 oed

**Llwybrau Dysgu 14-19:** Strategaethau'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer datblygu a gwella cyfleoedd addysg a hyfforddiant i ddisgyblion 14–19 oed

**Ymgynghorydd cyswllt:** aelod o dîm addysg yr AALl sydd â chyfrifoldeb arwain dros gysylltu ag ysgolion penodol

**Awdurdod lleol (ALl):** rhan o awdurdod unedol neu gyngor sy'n gyfrifol am ddarparu addysg i ddisgyblion o oed ysgol mewn ardal benodol.

**Mentor:** oedolyn, neu weithiau, disgybl hŷn, sy'n gweithredu fel cynghorydd/hyfforddwr/arweinydd i'r dysgwr.

**Cwricwlwm Cenedlaethol (CC):** y cwricwlwm a'r trefniadau asesu ar gyfer cyfnodau allweddol 1-4 y mae'n rhaid i'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru eu dilyn

**Pynciau nad ydynt yn bynciau craidd:** mae pynciau'r CC nad ydynt yn bynciau craidd yn cynnwys Cymraeg (ail iaith), technoleg dylunio, technoleg gwybodaeth, hanes, daearyddiaeth, celf, cerddoriaeth ac addysg gorfforol

**Ofsted:** y corff sy'n arolygu addysg i ddysgwyr yn Lloegr

**SPAEM:** Swyddfa Prif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi yng Nghymru. Gweithiodd arolygiaeth addysg Cymru o dan yr enw hwn o 1992 tan y newidiwyd yr enw i Estyn ym 1999.

**Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau):** unedau yw'r rhain sydd wedi'u sefydlu ac sy'n cael eu cynnal gan awdurdod lleol ar gyfer disgyblion o oed ysgol gorfodol. Mae disgyblion fel arfer yn mynd i unedau cyfeirio disgyblion am eu bod wedi'u gwahardd o'r ysgol neu am eu bod yn absennol dro ar ôl tro o'r ysgol, neu gan na fyddent, fel arall, yn cael addysg addas.

**RHAGORI (Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigol mewn Addysg yng Nghymru):** menter gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n targedu disgyblion dan anfantais ac sy'n ceisio codi lefelau eu perfformiad. Mae'n ofynnol i ysgolion sy'n gymwys i gael cyllid o dan y fenter i dargedu'r cyllid i gynorthwyo disgyblion sydd dan anfantais ac y mae'r risg fwyaf iddynt adael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau.

**Anghenion addysgol arbennig (AAA):** Mae gan blant a phobl ifanc anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anghenion dysgu sy'n galw am drefnu bod addysg arbennig ar gael iddynt.

**Fframiau siarad ac ysgrifennu:** dull addysgu sy'n galluogi disgyblion i weithio i fframwaith er mwyn rhoi trefn ar eu syniadau ar gyfer gwaith ar destunau fel y gallant ddatblygu mwy o gyfraniadau llafar ac ysgrifenedig estynedig.

**Gwerth ychwanegol:** y term a ddefnyddir i arfarnu faint o gynnydd y mae disgybl, neu grŵp o ddisgyblion, wedi'i wneud dros gyfnod penodedig a ph'un a yw'n cyfateb â'r disgwyliadau

**Cyrsiau galwedigaethol:** cyrsiau sy'n seiliedig ar faes galwedigaethol. Yn aml maent yn cynnwys lefel uchel o waith ymarferol a chymwysiadau uniongyrchol, fel profiad gwaith, i'r galwedigaethau dan sylw.

**Cymhwyster Bagloriaeth Cymru:** y cymhwyster trosfwaol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar lefelau 2 a 3 yn 2003 mewn cynllun peilot tair blynedd ar gyfer dysgwyr 16 oed a hŷn. Ym mis Medi, 2006, cyflwynwyd cymhwyster peilot lefel 1 hefyd i ddysgwyr dan 16 oed a dysgwyr dros 16 oed.

## Llyfryddiaeth

1 *Underachievement in Secondary Schools: Attitudes and Gender Differences among Year 9 Pupils* (Emma Smith, David Ellis a Sue Freye) Cylchgrawn Addysg Cymru, Cyfrol 9, Rhif 1 (2000)

2 *Girls, boys and school achievement*, Stephen Gorard Cylchgrawn Addysg Cymru, Cyfrol 10, Rhif 2 (2001)

3 *Cyflawniad Cymharol Bechgyn a Merched*; Adroddiad gan SPAEM (1997)

4 *Boys' Achievement in Secondary Schools* Adroddiad gan Ofsted (2003)

5 *Newidiadau mewn addysgu a dysgu a hyrwyddir gan y rhaglen Anelu at Ragoriaeth*; Adroddiad gan Estyn (Hydref 2005/ Mai 2006)

6 *Trawsnewid ysgolion: papur trafod; Adroddiad gan Estyn (Mawrth 2007)*

7 *Effaith Rhagori; Adroddiad gan Estyn (Gorffennaf 2007)*

8 *Cynlluniau Peilot y Cyfnod Sylfaen; Adroddiad gan Estyn (Awst 2007)*

9 *Gender and Education: the evidence on pupils in England*; Cyhoeddiad gan yr Adran Addysg a Sgiliau: (Gorffennaf 2007)